

Agenda – Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Hybrid – Ystafell Bwyllgora 5 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom	Lara Date Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Iau, 26 Hydref 2023	0300 200 6565
Amser: 09.30	SeneddEconomi@senedd.cymru

Rhag-gyfarfod preifat (09:15–09:30)

Cyfarfod cyhoeddus (09.30–13.00)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau
(09.30)

2 Papurau i'w nodi
(09.30)

**2.1 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y
Bil Ffyniant Bro ac Adfywio**

(Tudalennau 1 – 2)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai at Gadeirydd y
Pwyllgor Busnes – 6 Hydref 2023



2.2 Cytundebau masnach: Partneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel (CPTPP)

(Tudalennau 3 – 4)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Gweinidog dros Fasnach Ryngwladol, Llywodraeth y DU – 9 Hydref 2023 [Saesneg yn unig]

2.3 Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023

(Tudalennau 5 – 6)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Weinidog yr Economi a'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd – 13 Hydref 2023

2.4 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio

(Tudalennau 7 – 9)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd – 16 Hydref 2023

2.5 Cynllun Dychwelyd Ernes (DRS): Cynnwys gwydr

(Tudalennau 10 – 11)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd – 16 Hydref 2023

2.6 Datblygiadau gwynt ar y môr yn y Môr Celtaidd

(Tudalennau 12 – 13)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Brif Weinidog Cymru at y Prif Weinidog, Rishi Sunak AS – 12 Hydref 2023 [Saesneg yn unig]

2.7 Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE

(Tudalennau 14 – 21)

Dogfennau atodol:

Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE: Adroddiad cryno o'r trydydd cyfarfod – Hydref 2023

2.8 Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Rhestrau Sefydliadau) (Dirymu) 2023

(Tudalennau 22 – 23)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 18 Hydref 2023

2.9 Gohebiaeth gyda Gweinidogion: Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25

(Tudalennau 24 – 53)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Weinidog y Gymraeg ac Addysg – 9 Hydref 2023

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Weinidog yr Economi – 9 Hydref 2023

Llythyr at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd – 23 Awst 2023

Llythyr at Weinidog yr Economi – 23 Awst 2023

3 Ynni niwclear ac economi Cymru: Diwydiant Niwclear ac Undebau
(09.30–10.15) (Tudalennau 54 – 118)

Tom Greatrex, Prif Weithredwr, Cymdeithas y Diwydiant Niwclear
Helen Higgs, Pennaeth Capasiti Adeiladu Niwclear Newydd, Grŵp Strategaeth
Sgiliau Niwclear
Jane Lancaster, Ysgrifennydd Cynorthwyol, Prospect

Dogfennau atodol:

Papur tystiolaeth – Cymdeithas y Diwydiant Niwclear [Saesneg yn unig]

Papur tystiolaeth – Prospect [Saesneg yn unig]

Papur tystiolaeth ychwanegol – Bechtel Nuclear Power Co. Ltd [Saesneg yn unig]

Papur tystiolaeth ychwanegol – Rolls Royce SMR [Saesneg yn unig]

Briff Ymchwil

Egwyl (10.15–10.20)

4 Ynni niwclear ac economi Cymru: Cwmnïau Datblygu Niwclear
(10.20–11.05) (Tudalennau 119 – 121)

Alan Raymant, Prif Weithredwr, Cwmni Eginio
Simon Bowen, Cadeirydd, GB Nuclear

Dogfennau atodol:

Papur tystiolaeth – Cwmni Eginio [Saesneg yn unig]

Egwyl (11.05–11.15)

5 Ynni niwclear ac economi Cymru: Safbwynt Awdurdod Lleol

(11.15–12.00)

(Tudalennau 122 – 142)

Llinos Medi, Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn

Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio, Uchelgais Gogledd Cymru

Dogfennau atodol:

Papur tystiolaeth – Cyngor Sir Ynys Môn

Egwyl (12.00–12.15)

6 Ynni niwclear ac economi Cymru: Academyddion

(12.15–13.00)

Yr Athro Adrian Bull, Cadeirydd BNFL mewn Ynni Niwclear a'r Gymdeithas,
Prifysgol Manceinion

Yr Athro Simon Middleburgh, Sefydliad Dyfodol Niwclear, Prifysgol Bangor

7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(13.00)

Preifat (13.00–13.15)

8 Trafod tystiolaeth yn dilyn y cyfarfod

(13.00–13.15)

Elin Jones AS
Y Llywydd
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

6 Hydref 2023

Annwyl Lywydd

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Ffyniant Bro ac
Adfywio**

Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai wedi bod yn trafod memoranda cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, a'r ffaith ein bod wedi cyhoeddi adroddiad ar y memoranda gwreiddiol, diwygiedig ac atodol ar 13 Chwefror. Byddwch hefyd yn ymwybodol inni ysgrifennu atoch ar 18 Mai, yn egluro ein bod wedi ystyried Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 3) ("Memorandwm Rhif 3") a'n bod wedi penderfynu peidio ag adrodd arno. Roedd hyn oherwydd bod gwelliannau a nodir ym Memorandwm Atodol Rhif 3 yn ymwneud ag adroddiadau canlyniadau amgylcheddol nad ydynt yn dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

Ar 12 Medi, cytunodd y Pwyllgor Busnes i'n gwahodd ni, a thri phwyllgor arall, i ystyried Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 4) ("Memorandwm Rhif 4") ac i gyflwyno adroddiad erbyn 13 Hydref. Rydym wedi ystyried Memorandwm Rhif 4 ac yn nodi bod y gwelliannau y manylir arnynt ym Memorandwm Rhif 4 yn ymwneud â'r cenadaethau ffyniant bro, cynllunio a'r amgylchedd.

Ar y sail honno, a'r ffaith ei fod wedi cael ei gyfeirio at bwyllgorau eraill a allai fod â mwy o ddiddordeb yn y gwelliannau hyn, gwnaethom benderfynu peidio ag adrodd ar y memorandwm.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad; Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir

John

John Griffiths AS

Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Paul Davies MS
Chair of the Economy, Trade and Rural Affairs Committee
Welsh Parliament

T: +44 (0) 020 4551 0011
E: Huddleston.Correspondence@businessandtrade.gov.uk
W: www.gov.uk

Our ref: MCB2023/05748

By email: SeneddEconomy@senedd.wales

9 October 2023

Dear Paul,

Thank you for your letter of 19 September, regarding the UK's accession to the Comprehensive and Progressive Agreement for Trans-Pacific Partnership (CPTPP) and what this will mean for Wales. I am delighted that Wales and the UK as a whole will enjoy numerous benefits from our accession to this agreement.

I am particularly pleased to inform you that the Welsh economy may benefit from a potential boost of £110m in the long run as a result of the agreement, according to our published impact assessment. Joining CPTPP means over 99% of current UK goods exports to CPTPP will be eligible for zero tariffs. Reduced tariffs on imported goods will benefit consumers across the UK as well – meaning consumers in Wales could receive better choice, quality, and affordability.

CPTPP is also particularly advanced in both digital and services trade, which plays to Britain's strengths as one of the world's largest service exporters. This agreement will make it simpler for the UK to sell services digitally and cheaper and easier for tech firms to expand abroad. For example, joining CPTPP will help companies like Wales-based AI company, AMPLYFI, reach new markets through CPTPP's ambitious services and digital provisions.

Moreover, joining CPTPP means the UK will have a trade deal with Malaysia and Brunei, both CPTPP members, for the first time. This will give UK businesses in every part of the UK much better access to economies worth a total of over £340 billion in GDP in 2022. CPTPP is also designed to expand – and expansion is set to bring new opportunities for UK businesses and consumers. I have attached some detail on further benefits Wales may enjoy from the UK's accession to CPTPP.

Over the course of talks we have ensured that we have protected key domestic interests, such as agriculture. We have negotiated a balanced agreement, with significant benefits for agri-food businesses across the whole of the UK and which also has strong protections for the UK's sensitive agricultural products.

These include some permanent protections reflecting the Prime Minister's commitment to protecting the UK's sensitive agricultural sectors. We have also ensured that joining will not compromise our high animal and plant health, food safety or animal welfare standards.

Entry into force will now take place once both the UK and CPTPP Parties have finished their legal procedures which we expect to happen in the second half of 2024. My officials will continue to engage with colleagues in the devolved nations as we work towards this milestone.

Thank you again for your letter. I hope this response is helpful to you.

Yours sincerely,

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'Nigel Huddleston', with a stylized flourish at the end.

Nigel Huddleston MP
Minister for International Trade
Department for Business and Trade

Vaughan Gething AS/MS
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy



Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
SeneddEconomy@Senedd.Wales

13 Hydref 2023

Annwyl Paul,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Medi 2023 yn gofyn am atebion i gwestiynau ynghylch Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio).

Yn abteb i cwestiynau 1 a 2, rydym yn cydnabod na wnaeth y Senedd roi ei chydsyniad i Ddeddf REUL ond gan fod Gweinidogion Cymru bellach yn gyfrifol am swyddogaethau gweithredol perthnasol, byddwn yn arfer y swyddogaethau hynny mewn ffordd gyfrifol.

Mae Gweinidogion Cymru wrthi'n ystyried canlyniadau'r pwerau newydd y mae'r Ddeddf yn eu rhoi i Weinidogion Cymru gan ddatblygu cynlluniau yn unol â hynny. Rydym yn gweithio gyda'n cyd-weinidogion yn Llywodraeth y DU i ddeall eu bwriad ac unrhyw oblygiadau y gallai eu cynlluniau esgor arnynt ac effeithio ar Gymru. Nid oes gennym gynlluniau ar hyn o bryd i ddefnyddio'r pwerau hyn i wneud newid arwyddocaol i'n polisi.

Wrth ymateb i Ddeddf REUL Llywodraeth y DU, blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yw ganolbwyntio ar faterion sydd wedi'u datganoli yng Nghymru sy'n codi yn sgil rhoi Deddf REUL ar waith. Nid ydym wedi creu mecanwaith cyffredinol i fynd i'r afael ag offerynnau sy'n ymwneud â materion o gymhwysedd a gedwir yn ôl yng Nghymru. Byddwn yn cadw golwg ar offerynnau o'r fath ac yn ymdrin â'r goblygiadau i faterion y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt yn ôl y gofyn

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 5

Yn ateb i cwestiwn 3, ni nodwyd unrhyw offerynnau sy'n peri gofid ac sy'n gofyn i Weinidogion Cymru arfer eu pwerau i'w cadw, i'r graddau eu bod yn ymwneud â meysydd datganoledig.

Yn gywir,



Vaughan Gething AS/MS
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy



Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd



Ein cyf/Our ref: JJ/PO/342/2023

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

16 Hydref 2023

Annwyl Paul,

Diolch yn fawr i aelodau Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig am ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Atodol) (Rhif 4) ar Fil Ffyniant Bro ac Adfywio Llywodraeth y DU (y Bil).

Rwyf wedi darparu ymateb i'r cwestiynau yn eich llythyr dyddiedig 2 Hydref 2023.

Mae paragraffau 93 – 103 o'r Memorandwm Atodol (Rhif 4) yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar y gwelliannau a gynigiwyd i Ran 1 o'r Bil – Cenadaethau Ffyniant Bro. Ym mharagraff 111, rydych yn dweud eich bod o'r farn bod y gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ar 4 Gorffennaf 2023 i Ran 1 o'r Bil yn gwella'r sefyllfa a nodwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol diwygiedig gwreiddiol ar gyfer y Bil hwn, a osodwyd ar 25 Tachwedd, i'r graddau eich bod yn awr yn argymhell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r Bil. Yn y Memorandwm diwygiedig hwnnw, argymhellwyd na ddylid rhoi cydsyniad i Ran 1 o'r Bil. Ym mharagraffau 97 a 98 o'r Memorandwm Atodol (Rhif 4), rydych yn manylu ar y pryderon sy'n parhau mewn perthynas â Rhan 1 o'r Bil, a nodir y pryderon hefyd ym mharagraff 111.

Byddai'n ddefnyddiol felly cael rhagor o wybodaeth er mwyn deall sut mae'r sefyllfa wedi gwella yn eich barn chi, a rhagor o wybodaeth am y pryderon sy'n parhau mewn perthynas â Rhan 1, yn enwedig o ystyried eich bod yn awr yn argymhell y dylid rhoi cydsyniad.

Mae'r gwelliannau a gynigiwyd gan Lywodraeth y DU yn cydnabod rôl y Senedd a Llywodraeth Cymru yn y meysydd datganoledig a gwmpesir gan y Cenadaethau Ffyniant Bro yn glir, ac yn ymateb i'r pryderon rydym wedi'u mynegi'n gyson i Lywodraeth y DU ynghylch y Bil hwn.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r gwelliannau'n gosod nifer o rwymedigaethau ymgynghori a sylw dyladwy ar Lywodraeth y DU wrth bennu'r datganiad am Genadaethau Ffyniant Bro a methodoleg gysylltiedig, adrodd arno, ei ailystyried a'i adolygu. Mae'r diwygiadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidog gyflwyno adroddiad i'r Senedd ar y modd y mae wedi rhoi sylw dyledus i rôl Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru, a fydd yn destun craffu.

Yn ymarferol, byddai'n ofynnol i Lywodraeth y DU ystyried rôl y Senedd a Llywodraeth Cymru, gan gynnal ymgynghoriad priodol a rhoi sylw dyledus i'r sylwadau a wnaed. Rwy'n cydnabod bod hwn yn welliant yr oedd angen dybryd amdano i'r Bil, gan osod cyfyngiad angenrheidiol ar Weinidog perthnasol y Goron mewn materion datganoledig, a chreu adroddiad sy'n destun craffu ar y modd y mae wedi rhoi sylw dyledus.

Mae Llywodraeth Cymru, yn unol â'i chyfrifoldebau datganoledig am ddatblygu economaidd rhanbarthol, wedi gweithio mewn partneriaeth er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r heriau economaidd strwythurol hirdymor a wynebwr yng Nghymru a'r gwahaniaethau daearyddol rhwng rhannau gwahanol o'r Deyrnas Unedig (DU) a'r Undeb Ewropeaidd (UE).

Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU wedi sefydlu nifer o gronfeydd sy'n gysylltiedig â ffyniant bro drwy ddefnyddio pwerau Deddf Marchnad Fewnol y DU i wneud penderfyniadau am wariant yn uniongyrchol mewn meysydd datganoledig gan anwybyddu Llywodraeth Cymru a'r Senedd. Mae tansellio polisi rhanbarthol a gorfodi'r cronfeydd hyn ar Gymru heb weithio mewn partneriaeth ystyrion â Llywodraeth Cymru a heb ystyried anghenion penodol rhanddeiliaid yng Nghymru, yn cael effaith andwyol ar swyddi a thwf yng Nghymru.

Mae datblygu economaidd rhanbarthol yn faes sydd wedi'i ddatganoli i Gymru, a dylai cyllid ar gyfer swyddogaethau datganoledig ddod i Lywodraeth Cymru er mwyn i Weinidogion Cymru ei ddyrannu yn unol â'u blaenoriaethau a'u cyfeiriad strategol a gwaith craffu gan y Senedd. Bydd hyn yn helpu i osgoi dyblygu gwasanaethau, atebolrwydd niwlog, diffyg gwerth am arian, bylchau yng nghyllid y sector a thirwedd ariannu anghydlynol a dryslyd lle y caiff symiau bach o arian eu taenu'n denau dros brosiectau lleol byrdymor.

Ymddangosodd Gweinidog yr Economi gerbron eich Pwyllgor yn ddiweddar i drafod ein pryderon ynglŷn â'r modd y mae Llywodraeth Cymru yn ymdrin â'r Gronfa Ffyniant Bro a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Rydym yn falch bod y Pwyllgor wedi cydnabod, yn ei adroddiad 'Cyllid datblygu rhanbarthol ar ôl gadael yr UE', llawer o'r pwyntiau rydym wedi bod yn eu codi â Llywodraeth y DU ac eraill am y modd y mae'n ymdrin â chyllid Ffyniant Bro a chyllid ar ôl gadael yr UE ers sawl blwyddyn. Mae amrywiaeth o'r pwyllgorau trawsbleidiol, yn y Senedd ac yn San Steffan, yn ogystal â melinau trafod annibynnol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, hefyd yn rhannu llawer o'n pryderon am y modd y mae Llywodraeth y DU wedi ymdrin â chyllid Ffyniant Bro a chyllid ar ôl gadael yr UE.

Mae'n dal i fod yn aneglur sut y bydd Rhan 1 o'r Bil yn effeithio ar y Gronfa Ffyniant Bro ar sail cystadleuaeth, ac mae hyn wedi bod yn destun trafod yn ystod y cam adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi. Gofynnwyd i ymgeiswyr ar gyfer Ail Gylch y Gronfa Ffyniant Bro esbonio sut roedd eu cynnig yn gyson â'r cenadaethau a bennwyd yn y Papur Gwyn Ffyniant Bro, a deallwn fod yr adroddiadau blynyddol ar y cenadaethau ffyniant bro sy'n ofynnol gan y Bil hwn yn cynnwys, lle y bo'n berthnasol, y cyfraniadau a wnaed gan brosiectau a rhaglenni. Nid yw pum awdurdod lleol yng Nghymru (Sir y Fflint, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd a Bro Morgannwg) wedi cael unrhyw gyllid drwy'r ddau gylch cyntaf eto, ac nid yw'r trefniadau ar gyfer trydydd cylch y Gronfa wedi cael eu cyhoeddi eto, er bod disgwyl i'r cyllid hirdymor hwn ddod i ben ym mis Mawrth 2025.

Yn y Memorandwm Atodol, nodais ein pryder am y diffyg ymgysylltu â Llywodraeth Cymru wrth ddrafftio'r cenadaethau a'r metrigau cysylltiedig. Gofynnwyd i ni ymgysylltu'n uniongyrchol ar y metrigau ar gyfer y genadaeth ffyniant, ond rwy'n dal i ddisgwyl dyddiad wedi'i aildrefnu. Mae Llywodraeth y DU wedi dweud wrthynt na fydd y Cenadaethau

Ffyniant Bro yn creu unrhyw dargedau na blaenoriaethau adrodd newydd ar gyfer cyrff cyhoeddus datganoledig. Mesurau ar lefel y DU fydd y metrigau, yn hytrach na dangosyddion perfformiad sy'n gysylltiedig â sectorau neu gyrff penodol.

Drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rydym wedi gosod saith nid llesiant cenedlaethol, a ddisgrifir ar wyneb y Ddeddf, wedi'u hategu gan 50 o fetrigau llesiant a 18 o gerrig milltir. Dyma'r nodau sy'n llywio gwaith y Llywodraeth a chyrff cyhoeddus datganoledig penodol yng Nghymru. Mae'r darpariaethau yng nghymalau 1-6 o'r Bil yn cynnwys rhai o'r elfennau y darparwyd ar eu cyfer eisoes drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau blynyddol, dangosyddion a cherrig milltir, a gosod amcanion i lywio'r broses gyflawni.

Byddai hefyd yn ddefnyddiol gwybod pam y gosodwyd y Memorandwm Atodol (Rhif 4) dros fis ar ôl i'r gwelliannau gael eu cyflwyno

Cawsom wybodaeth am welliannau arfaethedig i'r Bil gan Lywodraeth y DU ar fyr rybudd ac, felly, roedd angen inni asesu goblygiadau'r gwelliannau hyn o safbwynt cyfreithiol a pholisi er mwyn cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol atodol, a gwnaethom hynny ar y cyfle cyntaf posibl. Mae'n ddrwg gennyf na fu modd inni gyhoeddi'r Memorandwm Atodol yn gynt.

A allwch chi gadarnhau a gyflwynwyd unrhyw welliannau eraill sydd wedi dileu cymalau yr oedd angen i'r Senedd roi cydsyniad iddynt yn flaenorol;

Ni chyflwynwyd unrhyw welliannau sy'n dileu cymalau yr oedd angen i'r Senedd roi cydsyniad iddynt yn flaenorol. Serch hynny, byddwch yn nodi bod Memorandwm Atodol Rhif 5, a osodwyd ar 6 Hydref, yn cynnwys darpariaethau sydd wedi'u cyflwyno yn lle diwygiadau a gyflwynwyd yn ystod y cam Pwyllgor ac Adrodd, y cytunwyd arnynt wedi hynny. Mae'r gwelliannau a wnaed i Ran 1 wedi ei gwneud yn fwy derbyniol, ond yn ein barn ni, bu angen i'r Senedd roi cydsyniad i'r cymalau bob amser.

A allwch chi gadarnhau a yw Llywodraeth y DU o'r farn bod angen i'r Senedd roi cydsyniad i'r cymalau neu'r atodlenni fel y'u diwygiwyd neu a fewnosodwyd gan y gwelliannau a nodwyd ym Memorandwm Atodol (Rhif 4)

Erys Llywodraeth y DU o'r farn nad yw Rhan 1 o'r Bil Ffyniant Bro ac Adfywio yn ymdrin â'r broses Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, ond bod Rhan 3, Pennod 1 (Data Cynllunio) a Rhan 6 (Adroddiadau Canlyniadau Amgylcheddol) yn ymdrin â hi. Nodwyd hyn gyntaf yn Atodiad A i'r [Nodiadau Esboniadol](#) ar gyfer y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio a gyflwynwyd gan Dŷ'r Cyffredin ar 19 Rhagfyr, a chefais gadarnhad ohono mewn llythyr gan yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Ffyniant Bro, yr Undeb a'r Cyfansoddiad ym mis Mai 2022, ac yn y llythyr gan y Gweinidog Ffyniant Bro ar y pryd ym mis Tachwedd 2022.

Nid yw'r sefyllfa hon yn newid o ganlyniad i'r gwelliannau arfaethedig a nodwyd ym Memorandwm Atodol Rhif 4 na Memorandwm Atodol Rhif 5.

Yn gywir,



Julie James AS/MS

Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Tudalen y pecyn 9



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: JJ/PO/343/2023

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

16 Hydref 2023

Annwyl Paul,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 4 Medi ynglŷn â'r Cynllun Dychwelyd Ernes.

Fel y nodir yn ein strategaeth ar yr economi gylchol, Mwy nag Ailgylchu, ein nod yw bod yn genedl ddiwastraff a sero net o ran carbon. Mae'r Cynllun Dychwelyd Ernes, sy'n rhan o'r diwygiadau ehangach i Gyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr, yn gam pwysig mewn ymateb i'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur. Bydd yn helpu'r sector i newid i arferion busnes mwy cynaliadwy.

Cyhoeddwyd asesiad effaith economaidd ochr yn ochr â'n hymgyngghoriad ar y cyd am y Cynllun Dychwelyd Ernes arfaethedig. Dangosodd yr asesiad nid yn unig y byddai'r cynllun yn cael effaith gadarnhaol net, ond y byddai'r Gwerth Presennol Net a'r Gymhareb Cost a Budd yn uwch ar gyfer cynllun a fyddai'n cynnwys 'cynnwys popeth', gan gynnwys gwydr, o'i gymharu chynllun na fyddai'n cynnwys gwydr. Mae'r dadansoddiad hwn yn tynnu sylw at y ffaith bod dileu gwydr o'r cynllun yn cael effaith economaidd – bydd yn lleihau'r manteision economaidd o ran y refeniw a geir o'r deunyddiau, bydd yn arwain at fwy o ailgylchu ac at lai o sbwriel – ond bydd, ar yr un pryd, yn golygu y bydd canlyniadau amgylcheddol y cynllun gryn dipyn yn llai.

Mae fy swyddogion yn cyfarfod yn rheolaidd â chynhyrchwyr a chynrychiolwyr y byd masnach yng Nghymru i drafod y gwaith o ddatblygu'r cynllun wrth inni fynd ati i bontio i economi fwy cylchol. Rydym yn cydnabod y gallai cynhyrchwyr llai yng Nghymru wynebu heriau penodol wrth addasu mewn ymateb i'r rhwymedigaethau a fydd yn gysylltiedig â Chynllun Dychwelyd Ernes ac rydym yn edrych ar amrywiaeth o ymyriadau i'w helpu. Ymhlith yr ymyriadau hynny y mae eithriadau ar gyfer cynhyrchwyr nad ydynt ond yn cynhyrchu nifer isel neu nifer cyfyngedig o gynhyrchion, ffioedd is ar gyfer busnesau llai ac, yn bwysig, eithriad ar gyfer cynhyrchwyr diodydd sy'n aildefnyddio ac ail-lenwi er mwyn eu cymell i wneud hynny.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 10

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddwn yn hapus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor wrth i'r Cynllun Dychwelyd Ernes gael ei roi ar waith, gan gynnwys yr asesiad effaith, a fydd yn cael ei ddiweddarau a'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r rheoliadau pan gânt eu cyflwyno gerbron y Senedd.

Rwy'n anfon hwn hefyd at Llŷr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir,



Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



Rt Hon Rishi Sunak, MP
Prime Minister
10 Downing Street
London
SW1A 2AA

pmpost.int@no10.gov.uk

12 October 2023

Dear Rishi,

I am writing in response to the latest market update from the Crown Estate in relation to off shore wind developments in the Celtic sea.

The Welsh Government remains as committed as ever to our statutory net zero targets. We recognise the climate emergency, and we see no case for any weakening of our commitments to take action for the benefit of current and future generations. I have welcomed, and indeed share, the UK Government stated ambitions for marine renewables and the ambition for the UK to become a world leader in the floating offshore wind sector. Here, I am pleased that the UK Government has not signalled a move away from the existing commitment for 50GW of floating offshore wind by 2030.

There is a once in a generation opportunity for the essential transition to renewable energy to lead a new industrial revolution, one that will support a just transition especially for many of our coastal communities which have themselves suffered from industrial decline.

However, there is a genuine risk that this major opportunity, and the optimism within the sector, is dissipating due to the lack of progress and action to unlock investment.

In my discussions with renewable energy developers, both based in Wales and those looking to invest in the UK, the key enabling factor to unlock investment is certainty. While it is good that some progress has clearly been made on the recent spatial issues associated with the Celtic Seas, last week's technical update from the Crown Estate will do little to show investors that there is a credible long-term investment pipeline so much needed to unlock major investment decisions. The risk to the UK is that developers, uncertain as to the future development potential in the UK, will seek to utilise the existing supply chain in

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

countries that have shown the ambitions for the sector and where investment is already underway in ports and the associated supply chain.

Wales is uniquely placed to support the deployment of significant scale floating offshore wind in the Celtic Seas. Our deep water ports at Port Talbot and in West Wales have the potential to be the manufacturing, integration and maintenance ports the renewable industry is urgently seeking for the Celtic Seas. Our joint work on freeports is another major opportunity to attract new investment, transforming the regional economies, providing new markets for the steel industry and high value added manufacturing. This is a major opportunity for Wales and for the United Kingdom and greater certainty in of future development is the way to ensure that it is grasped.

The other critical infrastructure component is grid. It is recognised that the existing grid infrastructure across the Celtic Sea region is not fit for purpose and requires innovative solutions, both on and offshore, to ensure delivery of a robust and resilient system. Your support will be crucial to ensure that a long-term view is taken on anticipatory investment, not only to meet the initial 4.5GW requirement but future-proofing the system for additional seabed leasing rounds.

The action need from the UK Government is therefore clear. We need urgent clarity on the potential development pipeline for the Celtic Seas which will provide confidence to the floating offshore wind sector that the Celtic Seas will provide large scale opportunities that the sector needs to make Wales and the rest of the UK the base for investment.

If we are to make the most of that opportunity, we also need the support of the UK Government to raise the ambitions for the UK supply chain. We are in an international market where our international competitors are strengthening the local supply chain content for their renewable energy projects. We need firmer action to support the development of the supply chain and require developers to commit to UK suppliers.

Finally, it was deeply disappointing that no floating offshore wind developers bid into the latest round of Contracts for Difference. Changed market conditions mean that the structure and scope of the CfD package has to be reviewed. We cannot risk another failed auction round for floating offshore wind because that really would be disastrous for confidence in the sector.

Provided the sector can see a clear pipeline of opportunity for the Celtic Seas, with collective action to support the supply chain and a contract for difference auction which supports the new industry in its earliest stages, the outlook for Wales and the United Kingdom can be very bright indeed, as global leaders in this vital area.

Again, the Welsh Government is willing to work closely with the UK Government to share our experience with the marine energy sector, and achieve our objectives in the Celtic Sea.

Yours sincerely,

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive, slightly slanted style.

MARK DRAKEFORD

Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE: Adroddiad cryno ar y trydydd cyfarfod

Hydref 2023

Mae Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE yn gorff ffurfiol a sefydlwyd o dan Gytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU a'r UE. Mae'n chwarae rôl bwysig o ran goruchwyllo gweithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a phob cytundeb arall rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol.

Cynhaliwyd trydydd cyfarfod y Cynulliad Partneriaeth Seneddol ym Mrwsel ar 3-4 Gorffennaf. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r materion a drafodwyd sydd o bwys i Gymru. Gwnaeth yr adroddiad cryno ar gyfarfod blaenorol y Cynulliad Partneriaeth Seneddol bum argymhelliad ynghylch datblygu'r modd y mae'r Senedd yn ymgysylltu â'r corff hwnnw. Mae'r adroddiad hwn yn trafod y cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r argymhellion hynny rhwng yr ail a'r trydydd cyfarfod.

Yn cymryd rhan yn y trydydd cyfarfod oedd Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad; a Luke Fletcher AS, aelod o Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig. Yn rhinwedd hynny, felly, maent wedi cytuno ar yr adroddiad.



Cynnwys

1. Materion sydd o bwys i'r Senedd ac i Gymru.....	2
"Taflwybr mwy cadarnhaol".....	3
Arwyddion o gydweithio pellach.....	3
Sicrhau cyflenwadau ynni.....	3
Galwad am arweinyddiaeth fyd-eang ar gydweithio ynghylch yr hinsawdd.....	4
Mynediad at raglen Horizon.....	4
Awydd cyffredin i wella symudedd.....	4
Cynnwys lleisiau dinasyddion drwy gydweithio yn y gymdeithas sifil	5
Posibiliadau ehangach o ran cydweithio ar bolisiau gwyrdd ym maes diwydiant a masnach?.....	6
"Condemni'n ddiwro y rhyfel ymosodol digymell ac anghyfiawn yn erbyn Wcráin".....	6
2. Cyfranogiad y Senedd yng ngwaith y Cynulliad Partneriaeth Seneddol.....	7

1. Materion sydd o bwys i'r Senedd ac i Gymru

Mae Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU a'r UE yn cwmpasu meysydd pwysig sydd o fewn cymhwysedd datganoledig neu sy'n cael effaith sylweddol arnynt. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y rhain, sut y maent yn effeithio ar Gymru, a rôl y Cynulliad Partneriaeth Seneddol yn y canllawiau a'r ffeithluniau a luniwyd gan Ymchwil y Senedd mewn perthynas â'r cytundeb.

Mewn arwydd bod y cytundeb ar Fframwaith Windsor wedi newid naws ac awyrgylch y cysylltiadau rhwng y DU a'r UE, ynghyd â'r awydd am gydweithio pellach o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, roedd yr agenda a'r trafodaethau'n ymdrin â meysydd lle gallai cydweithio pellach fod yn bosibl yn y

dyfodol a lle mae gan y ddwy ochr ddiddordeb cyffredin mewn cydweithio pellach.

Gallwch wylio’r trafodion yn llawn ar wefan dirprwyaeth y DU i Senedd Ewrop.

“Taflywbr mwy cadarnhaol”

Mae gweithredu Protocol Gogledd Iwerddon a thelerau Fframwaith Windsor yn fater o bwys i borthladdoedd, busnesau a dinasyddion Cymru. Yn y Senedd, mae’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn monitro’n ofalus effaith y broses o weithredu’r protocol ar Gymru.

Dywedodd Maroš Šefčovič, Is-lywydd y Comisiwn Ewropeaidd, fod y cam o gytuno ar Fframwaith Windsor wedi sicrhau bod y cysylltiadau rhwng y DU a’r UE ar “daflywbr mwy cadarnhaol”. Croesawodd James Cleverly, Ysgrifennydd Tramor y DU, y broses o feithrin ymddiriedaeth, hyder a dealltwriaeth rhwng y ddwy ochr. Roedd yr awyrgylch mwy cydweithredol yn werth ei nodi ac i’w groesawu’n fawr.

Pwysleisiodd yr Is-lywydd Šefčovič fod angen parhau â’r gwaith o weithredu Fframwaith Windsor, a hynny ar frys. Bydd y modd y caiff materion sy’n ymwneud â gweithredu eu datrys o ddiddordeb mawr i Gymru. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi awgrymu ei bod yn bwriadu cydsynio i reoliadau sy’n gweithredu’r Fframwaith mewn meysydd datganoledig.

Arwyddion o gydweithio pellach

Tynnodd y ddwy ochr sylw at y ffaith bod y DU a’r UE wedi llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar Wasanaethau Ariannol, gan nodi bod hyn yn dangos bod modd cytuno ar gydweithio pellach.

Sicrhau cyflenwadau ynni

Mewn ymateb i’r argymhelliad ar y cyd ar gydweithio ym maes ynni a fabwysiadwyd gan y Cynulliad Partneriaeth Seneddol yn ystod ei ail gyfarfod, nododd y Cyngor Partneriaeth fod y DU a’r UE wedi cytuno i drafod yn rheolaidd materion sy’n ymwneud â diogelwch cyflenwadau. Nododd hefyd fod y DU wedi llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Chomisiwn Ynni Môr y Gogledd, sy’n cynnwys cydweithio ar brosiectau hybrid a phrosiectau ar y cyd, cynllunio gofodol morol, ariannu prosiectau ynni adnewyddadwy a chyfnewid arfer gorau. Yn y deunydd briffio a ddarparwyd gennym ymlaen llaw i ddirprwyaeth y DU, gwnaethom bwysleisio pwysigrwydd cydweithio ym Môr Iwerddon a’r Môr

Celtaidd mewn perthynas â phrosiectau ynni adnewyddadwy a phrosiectau rhyng-gysylltwyr yng Nghymru, a'r gobaidh y gellir parhau i gryfhau cydweithio yn y meysydd hyn mewn ffyrdd tebyg i'r cydweithio sy'n digwydd ym Môr y Gogledd.

Galwad am arweinyddiaeth fyd-eang ar gydweithio ynghylch yr hinsawdd

Gwnaeth y grŵp llai ar ynni a'r hinsawdd [dynnu sylw](#) at y potensial enfawr ar gyfer cydweithio rhwng yr UE a'r DU ynghylch cyflawni targedau sero net, datgarboneiddio a diwygio marchnadoedd trydan. Galwodd am gydweithio ar y broses o ddatblygu mecanweithiau i addasu ffiniau carbon a chreu pwyllgor arbenigol ar sero net o dan strwythur llywodraethu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

Gwnaeth y grŵp llai ddarparu llwyfan ar gyfer trafod gwaith pwyllgorau'r Senedd ar uchelgeisiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â sero net, a'r polisiau a'r ddeddfwriaeth sydd ar waith yng Nghymru gyda'r nod o fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Derbyn i raglen Horizon

Roedd derbyn y DU i raglen ymchwil Horizon yn bwnc amlwg iawn a gododd mewn nifer o sesiynau a grwpiau llai. Galwodd aelodau o bob rhan o'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol ar Lywodraeth y DU a'r Comisiwn Ewropeaidd i ddod â thrafodaethau i ben a sicrhau cytundeb cyn gynted â phosibl.

Yn ystod [sesiynau'r grwpiau llai](#) ac yn ein deunydd briffio i ddirprwyaeth y DU, gwnaethom dynnu sylw at y ffaith ei bod yn bwysig i'r sector ymchwil, arloesi ac addysg uwch yng Nghymru sicrhau mynediad cyflym i raglen ymchwil Horizon. Gwnaethom bwysleisio'r ffaith y dylid cynnwys unrhyw waith dadansoddi a wnaed gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â gwerth am arian wrth ystyried ffactorau fel ansawdd partneriaethau a chanlyniadau ymchwil.

Rydym yn croesawu'r cyhoeddiad dilynol ar gysylltiad y DU â Horizon.

Awydd cyffredin i wella symudedd

Mae gallu dinasyddion y DU a dinasyddion yr UE i symud rhwng y DU a'r UE at ddibenion astudio, gweithio ac ymgymryd â gweithgarwch hamdden yn parhau i fod yn ffocws allweddol i aelodau'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol.

Gwnaeth y [grŵp llai ar symudedd](#) dynnu sylw unwaith eto at y materion parhaus y mae sector y celfyddydau a diwylliant yn eu hwynebu o ran teithio. Roeddem

yn gallu tynnu sylw at dystiolaeth a gasglwyd ar y mater hwn gan bwyllgor diwylliant y Senedd fel rhan o'i [ymchwiliad i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon](#), gan fod problemau'n parhau i ddod i'r amlwg er gwaethaf yr Ardal Deithio Gyffredin. Gwnaeth y grŵp ailadrodd yr argymhelliad a wnaed yn flaenorol i Gyngor Partneriaeth y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, sef y dylai'r UE a'r DU negodi cytundeb cynhwysfawr i ganiatáu i artistiaid deithio a gweithio yn yr UE a'r DU.

Mae aelodau'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol yn parhau i bryderu am y ffaith bod llai o gyfleoedd ar gael, ac am y rhwystrau sy'n bodoli o ran symudedd a lefelau ymgysylltu pobl ifanc. Gwnaethom dynnu sylw at waith rhaglen cyfnewid dysgu Llywodraeth Cymru, sef rhaglen Taith, a'i helfennau cyfatebol. Gwnaeth y [grŵp llai](#) annog y Cyngor Partneriaeth i hwyluso symudedd ymhlith plant ysgol drwy ddefnyddio cardiau adnabod a thrwyddedau grŵp.

Mae materion parhaus ynghylch statws preswylwyr sefydlog a statws preswylwyr cyn sefydlu ar gyfer dinasyddion yr UE sy'n dymuno aros yn y DU yn parhau i beri pryder. Mae [Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd](#) yn monitro'r mater hwn yng Nghymru.

Cynnwys lleisiau dinasyddion drwy gydweithio yn y gymdeithas sifil

Nododd aelodau'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol fod rhaglen Horizon a symudedd ymhlith pobl ifanc yn elfennau allweddol o wella cydweithio yn y gymdeithas sifil. Pwysleisiwyd y ffaith bod y dasg o ddatrys y materion hyn yn fater o bwysigrwydd cyffredin i aelodau o'r ddwy ochr.

Mae ymgysylltu pellach rhwng y Cynulliad Partneriaeth Seneddol a chymdeithas sifil, a'r ddeialog ynghylch y berthynas rhwng y DU a'r UE, yn fater y mae aelodau'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol yn awyddus i'w archwilio. Mae'r Senedd a sefydliadau eraill yng Nghymru wedi bod yn weithgar o ran cefnogi gweithgarwch ymgysylltu rhwng cymdeithas sifil Cymru a'r UE yn sgil Brexit. Roedd y drafodaeth a gafwyd ar y materion hyn yn gyfle i dynnu sylw at bwysigrwydd y gwaith hwn. Mae'r gwaith o gynnwys cymdeithas sifil Cymru yn y broses o feithrin cysylltiadau rhwng y DU a'r UE yn elfen allweddol o ymchwiliad y [Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i Lywodraethiant y DU a'r UE](#). Mae'r Pwyllgor yn gobeithio cyflwyno adroddiad cyn cyfarfod nesaf y Cynulliad Partneriaeth Seneddol ym mis Rhagfyr.

Posibiliadau ehangach o ran cydweithio ar bolisiau gwyrdd ym maes diwydiant a masnach?

Roedd Bargen Werdd yr UE, 'Fit for 50' a'r Ddeddf Lleihau Chwyddiant yn yr Unol Daleithiau yn sail i drafodaethau ar gyfleoedd pellach i gydweithio ar bolisiau diwydiannol. Gwnaeth yr Arglwydd Johnson, Gweinidog Buddsoddi y DU, arddel cydweithio agos at ddibenion cynhyrchu cadwyni cyflenwi gwydn, yn enwedig mewn perthynas â datblygu technolegau newydd. Gwnaeth Mr Richard Szostak, Cyfarwyddwr Partneriaid Gorllewin Ewrop yn y Comisiwn Ewropeaidd, bwysleisio'r ffaith bod y Comisiwn yn canolbwyntio ar weithredu a gwireddu potensial y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn llawn cyn canolbwyntio ar feysydd pellach o gydweithio y tu hwnt i'r cytundeb. Yn ogystal, ategodd neges yr Is-lywydd Šefčovič, sef y bydd ymwahanu pellach, o reidrwydd, yn golygu rhwystrau pellach i fasnach. Ategodd hefyd bryderon parhaus y Comisiwn ynglŷn â Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir, gan nodi y bydd yr UE yn rhoi sylw manwl i unrhyw newidiadau deddfwriaethol a wneir. Gwrthododd y Senedd gydsynio i'r Bil, ond cafodd y Ddeddf ei phasio gan Senedd y DU heb gydsyniad.

Yn ein deunydd briffio ar gyfer dirprwyaeth y DU, gwnaethom bwysleisio bod rhwystrau technegol i fasnachu gyda'r UE yn parhau i fod yn bryder allweddol i lawer o fusnesau yng Nghymru.

“Condemni’n ddiwyro y rhyfel ymosodol digymell ac anghyfiawn yn erbyn Wcráin”

Yn ei ail argymhelliad i'r Cyngor Partneriaeth, gwnaeth y Cynulliad Partneriaeth Seneddol ailadrodd y ffaith ei fod yn condemnio'n ddiwyro y rhyfel yn Wcráin, y ffaith ei fod yn cefnogi Wcráin, a'r ffaith bod angen cydweithio rhwng yr UE a'r DU, yn enwedig mewn perthynas â pholisi cosbau effeithiol. Galwodd hefyd am ddwysáu'r ddeialog ynghylch y cyfleoedd ar gyfer cydweithio a chydgysylltu yn y dyfodol ar faterion tramor a materion diogelwch cyffredin rhwng y DU a'r UE. Mae wedi gofyn i'r Cyngor Partneriaeth adrodd yn ôl ar ei argymhelliad cyn y cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr 2023.

Mae'r Senedd wedi bod yn unfrydol wrth gefnogi cynigion sy'n condemnio'r rhyfel ac yn mynegi undod â phobl Wcráin.

2. Cyfranogiad y Senedd yng ngwaith y Cynulliad Partneriaeth Seneddol

Mae gan ddeddfwrfeydd datganoledig lawer i'w gyfrannu at waith y Cynulliad Partneriaeth Seneddol, fel y dengys yr adroddiad hwn. Mae'r cyfraniad cadarnhaol a wneir gan aelodau datganoledig at waith y grwpiau llai, a'r cyfle gwerthfawr i godi materion a sôn am arfer da yng Nghymru yn y grwpiau hynny, yn dangos yn glir fanteision ein cynnwys yn y trefniant hwn.

Gwnaeth ein [hadroddiad cryno](#) ar ail gyfarfod y Cynulliad Partneriaeth Seneddol bum argymhelliad ar gyfer datblygu'r berthynas rhwng y Senedd a'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol ymhellach. Mae cynnydd wedi'i wneud ar sawl un o'r argymhellion hynny, ond byddwn yn parhau i weithio a phwyso am gynnydd pellach ar argymhellion eraill.

Argymhelliad 1: Bod y gwelliannau a wnaed i gyfranogiad y deddfwrfeydd datganoledig yng nghyfarfodydd ffurfiol y Cynulliad Partneriaeth Seneddol bellach yn cael eu gwreiddio fel arfer gwaith cyffredin.

Argymhelliad 2: Bod ystyriaeth yn parhau i gael ei rhoi gan Swyddfa'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol i'r deddfwrfeydd datganoledig allu gymryd rhan yn nhrefodaethau'r Cyfarfod Llawn ar feysydd cymhwysedd datganoledig.

Mae cynnwys grwpiau llai ar yr agenda am yr eildro, a gwahodd aelodau datganoledig i gymryd rhan lawn yn y grwpiau hynny, yn dangos bod y datblygiadau cadarnhaol a wnaed yn yr ail gyfarfod yn cael eu hymgorffori. Rydym yn gwerthfawrogi'r cyfle y mae hyn yn ei roi o ran cyfrannu at y trafodaethau pwysig sy'n cael eu cynnal. Mae'r ffaith bod y ddau sefydliad yn cyhoeddi'r pwyntiau sy'n cael eu codi gan y grwpiau llai hefyd yn gam i'w groesawu'n fawr, gan ei fod yn hyrwyddo tryloywder a lefelau ymgysylltu â'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol.

Rydym yn gwerthfawrogi'r amser cyfyngedig sydd ar gael i holl aelodau'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol gyfrannu yn ystod dadleuon yn y Cyfarfod Llawn. Serch hynny, rydym yn parhau i bwysu am amser i'r deddfwrfeydd datganoledig siarad mewn dadleuon yn y Cyfarfod Llawn ar feysydd cymhwysedd datganoledig. Mae'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol yn chwarae rôl hynod bwysig o ran cryfhau'r berthynas rhwng y DU a'r UE, a gall y deddfwrfeydd datganoledig wneud cyfraniad cadarnhaol at y broses o ddatblygu syniadau a rhannu arfer da.

Yn yr un modd, dim ond cryfhau gwaith y Cynulliad Partneriaeth Seneddol y bydd cyfraniad cynrychiolwyr rhanbarthol Ewropeaidd a'r gymdeithas sifil ehangach yn ei wneud.

Gwnaethom ddarparu briff ysgrifenedig cyn y cyfarfod i ddirprwyaeth y DU, a hynny er mwyn codi materion sydd o bwys penodol i'r Senedd ac i Gymru. Rydym yn gobeithio bod y briff hwn wedi bod yn adnodd defnyddiol o ran llywio cyfraniadau dirprwyaeth y DU. Gwnaethom gyfarfod hefyd â'r Gwir Anrhydeddus Hilary Benn, un o'r Is-Gadeiryddion, ymlaen llaw. Byddwn yn parhau i geisio datblygu ein perthynas a'n gweithgarwch ymgysylltu ag aelodau o ddirprwyaeth y DU.

Argymhelliad 3: Bod cynrychiolwyr y Senedd a phwyllgorau perthnasol y Senedd yn cydweithio i ddatblygu yr perthynas ag aelodau dirprwyaethau y DU a'r UE y tu allan i gyfarfodydd ffurfiol y Cynulliad Partneriaeth Seneddol.

Argymhelliad 4: Bod adroddiadau ar ganlyniadau sesiynau'n cael eu rhannu fel mater o drefn a'u dwyn i sylw pwyllgorau perthnasol y Senedd a Llywodraeth Cymru.

Gwnaethom dynnu ein hadroddiad diwethaf at sylw pwyllgorau perthnasol y Senedd a Phrif Weinidog Cymru. Rydym yn ddiolchgar am eu hymateb cadarnhaol ac rydym yn parhau i ymgysylltu â nhw.

Mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn y Senedd wedi gwahodd pwyllgorau cyfatebol mewn deddfwrfeydd eraill yn y DU i gymryd rhan yn ei ymchwiliad i lywodraethiant y DU a'r UE a chyfarfu ag Aelodau o Senedd Ewrop sy'n rhan o ddirprwyaeth yr UE yn ystod ei ymweliad â Brwsel ym mis Medi.

Mae gan bwyllgorau eraill y Senedd gynlluniau i ymweld â Brwsel dros y 12 mis nesaf er mwyn trafod materion sy'n berthnasol i waith y Cynulliad Partneriaeth

Seneddol. Byddant yn parhau i geisio meithrin perthynas â chymheiriaid yn eu meysydd priodol.

Rydym yn nodi'r galwadau penodol gan y Comisiwn Ewropeaidd parthed codi proffil gwleidyddol y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a'i strwythurau llywodraethu, a byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth o waith pwysig y Cynulliad Partneriaeth Seneddol.

Argymhelliad 5: Bod mecanweithiau'n cael eu datblygu i ymgysylltu â chymdeithas sifil Cymru ar waith Aelodau o'r Senedd yn y Cynulliad Partneriaeth Seneddol – a hynny cyn y cyfarfodydd ffurfiol ac ar ôl y cyfarfodydd i roi adborth ar y trafodion.

Cawsom gyfle i ymgysylltu'n anffurfiol â rhanddeiliaid cyn y trydydd cyfarfod, a gwnaethom ddefnyddio'r wybodaeth hon i lywio ein deunydd briffio ar gyfer dirprwyaeth y DU a'r cyfraniadau yn y grwpiau llai. Rydym yn ddiolchgar i'r rhanddeiliaid hynny a oedd yn gallu llywio ein gwaith ar fyr rybudd. Un her allweddol wrth geisio ymgysylltu'n ffurfiol â rhanddeiliaid cyn cyfarfodydd yw'r ffaith nad yw'r agendâu yn dod i law tan tuag wythnos cyn y cyfarfod dan sylw, fan gynharaf.

Er bod hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd sydd ar gael i ymgysylltu'n ffurfiol â rhanddeiliaid ar eitemau penodol ar yr agenda, mae cyfleoedd i ymgysylltu â rhanddeiliaid ar faterion cyffredinol sydd o bwys iddynt cyn cyfarfodydd ac i geisio dylanwadu ar gynnwys yr agenda. Y tu allan i'r cyfarfodydd ffurfiol, mae cyfleoedd hefyd i godi ymwybyddiaeth ymhlith aelodau'r dirprwyaethau ynghylch unrhyw faterion sy'n cael eu nodi drwy waith ymgysylltu ffurfiol â rhanddeiliaid.

Yn ogystal, byddwn yn chwilio am gyfleoedd pellach i gydlynu gwaith ar y Cynulliad Partneriaeth Seneddol â'r gwaith a wneir gan Aelodau o'r Senedd sy'n gwasanaethu ar Grŵp Cyswllt y DU ar gyfer Pwyllgor y Rhanbarthau i geisio manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael i godi materion sydd o bwys i Gymru.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddEconomy@senedd.wales

18 Hydref 2023

Annwyl Gadeirydd,

Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Rhestrau Sefydliadau) (Dirymu) 2023

Hoffwn hysbysu'r Pwyllgor fy mod yn rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wneud Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Rhestrau Sefydliadau) (Dirymu) 2023.

Bydd y Rheoliadau yn cael eu gwneud o dan bwerau a wneir gan ddefnyddio pwerau yn Rheoliad a Ddargedwir (UE) 2017/625 – y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol.

Pwrpas y Rheoliadau yw dirymu'r cyfyngiadau a osodwyd ar rai sefydliadau bwyd Brasil. Bydd hyn yn galluogi sefydliadau bwyd Brasil y cyfyngwyd arnynt yn flaenorol i gael eu hychwanegu at y rhestr o sefydliadau a gymeradwywyd i allforio i Brydain Fawr, ar ôl i restr wedi'i diweddarau o'r sefydliadau a gymeradwywyd gan awdurdodau cymwys Brasil gael ei chyflwyno.

Hoffwn sicrhau'r Pwyllgor hwn mai polisi Llywodraeth Cymru fel arfer yw deddfu dros Gymru ar faterion o fewn cymhwysedd datganoledig. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, mae manteision i gydweithio â Llywodraeth y DU pan fo sail resymegol glir dros wneud hynny. Ar yr achlysur hwn, felly, rwy'n rhoi fy nghydsyniad i'r Rheoliadau hyn am resymau effeithlonrwydd a hwylustod, a chydgyssylltiad a chysondeb trawslywodraethol.

Bydd y Rheoliadau yn cael eu gosod gerbron Senedd y DU ar 18 Hydref 2023 gan ddefnyddio'r weithdrefn negyddol a byddant yn dod i rym ar 08 Tachwedd 2023.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
- 1.8 Ar bob lefel, mae pawb yn edrych am sicrwydd un ffordd neu'r llall os bydd datblygiad yn digwydd ar safle'r Wylfa - boed hynny yn ddatblygiad graddfa modwlar bychain neu GW. Mae'r sicrwydd hyn yn cael ei geisio gan ein trigolion, ein cymunedau, busnesau a'r gadwyn gyflenwi yn ogystal â'r datblygwyr eu hunain.
- 1.9 Ni allwn ar lefel lleol roi sicrwydd i'n pobl ifanc nac i'r gadwyn gyflenwi y bydd cyfle iddynt weithio a manteisio yn y dyfodol o adeiladu a gweithredu datblygiad niwclear ar yr Ynys heb gadarnhad pendant y bydd datblygiad yn digwydd. Rydym wedi codi gobeithion yn flaenrol gyda theuluoedd wedi gobeithio y byddai eu plant yn derbyn cyfleoedd gwaith o ansawdd a fydd yn eu galluogi i aros ar yr Ynys a llawer o fusnesau wedi meddwl am sut y byddent yn gallu gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol.
- 1.10 Mae'r Cyngor yn cadarnhau ei fod yn unol â gweledigaeth y Rhy yn parhau i fod yn gefnogol mewn egwyddor i brosiect niwclear newydd ar safle'r Wylfa

ond mae hyn ar yr amod bod y prosiect yn cyflenwi buddion economaidd-gymdeithasol trawsnewidiol i'r cymunedau lletya.

- 1.11 Tra bo'r Cyngor, mewn egwyddor, yn cefnogi datblygiadau niwclear newydd ac yn cydnabod y rôl y gall chwarae o ran ymateb i lwybr tuag at gyflawni sero net, yn y pen draw, ni all hyn fod ar draul yr ynys na'i chymunedau.
- 1.12 Mae Cefnogaeth y Cyngor yn seiliedig ar gadarnhad fod y datblygiad yn un cynaliadwy ac nid ar draul cymunedau'r ynys. Mae cefnogaeth y Cyngor mewn egwyddor, a'r drwydded gymdeithasol i fwrw ymlaen â datblygiad niwclear, yn amodol ar weithredu'r egwyddorion a adnabyddir isod. Mae'r Cyngor yn cadarnhau fod yr egwyddorion hyn yn berthnasol i ddatblygiad modwlar bychain ynghyd â datblygiad ar raddfa GW ac yn cyd-fynd â safbwynt blaenorol y Cyngor o ran cynigion Pŵer Niwclear Horizon ar gyfer Wylfa Newydd:
- *Rhaid mynd ati'n rhagweithiol i osgoi neu leihau effeithiau andwyol*
 - *Rhaid manteisio i'r eithaf ar fuddion o safbwynt economaidd a chymdeithasol*
 - *Rhaid diogelu nodweddion unigryw ac arbennig yr ynys ynghyd â'r ymdeimlad o le'*
 - *Dylid arfer yr Egwyddor Agosrwydd*
 - *Rhaid creu etifeddiaeth gadarnhaol*
- 1.13 O ran ei ymagwedd at unrhyw ddatblygiadau mawr, mae'r Cyngor yn mabwysiadu'r Egwyddor Agosrwydd. Mae'r Egwyddor Agosrwydd yn ei gwneud hi yn ofynnol i roi ystyriaeth yn y lle cyntaf i'r effeithiau a fydd yn deillio o'r prosiect ar y cymunedau hynny sydd wedi eu lleoli agosaf ac fel y mae'r effeithiau a brofir yn lleihau yn ôl eu pellter o'r prosiect, mae'r angen am ddarparu buddion a mesurau lliniaru, gan gynnwys digolledu, hefyd yn lleihau.
- 1.14 Mabwysiadodd y Cyngor yr Egwyddor Agosrwydd er mwyn llywio ei safbwynt ar gyfer ymdrin ag a thrafod cais DCO Wylfa Newydd Horizon. Roedd hyn yn sicrhau bod yr holl fuddion, mesurau lliniaru a digolledu yn cael eu canoli ar y gymuned letyol yn y lle cyntaf, sef y cymunedau a'r trigolion a effeithir fwyaf o ganlyniad i effeithiau holl gyfnodau'r prosiect.
- 1.15 Mae'r Cyngor yn awyddus i'r Egwyddor Agosatrwydd gael ei fabwysiadu gan holl bartneriaid a rhanddeiliaid tu mewn a thu allan i'r gyfundrefn gynllunio gan gynnwys y ddwy Lywodraeth, Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac eraill er mwyn sicrhau bod y buddion sy'n deillio o bob prosiect mawr yn canolbwyntio ar y cymunedau agosaf, sef y cymunedau hynny fydd yn cael eu heffeithio arnynt fwyaf ar hyd oes y prosiect.
- 1.16 Mae'r Cyngor ar ddeall bod Llywodraeth y DU yn bwriadu ymgynghori ar Ddatganiad Polisi Cenedlaethol (NPS) wedi ei diweddarau ar gyfer prosiectau niwclear yn ystod yr Hydref ac y bydd yn debygol y bydd safle'r Wylfa ac Ynys

Môn yn parhau i gael ei hadnabod fel un or safleoedd/ardaloedd sy'n cael ei ffafrio ar gyfer datblygiad niwclear newydd.

- 1.17 Mae'r Cyngor yn croesawu paratoi Datganiad wedi ei ddiweddarau gan y bydd yn cynnig sail bolisi gyfredol ar gyfer datblygiadau niwclear newydd ym Mhrydain ac yn datrys yr ansicrwydd ar gyfer datblygwyr, awdurdodau lletya, cymunedau a rhanddeiliaid ehangach o ran pa safleoedd fydd yn cael eu dynodi ar gyfer datblygiad niwclear newydd ac yn derbyn cefnogaeth sail bolisi ar y lefel uchaf o ran yr hierarchaeth bolisi.
- 1.18 Ar lefel bolisi lleol, mae'r Cyngor ar hyn o bryd wrthi'n paratoi cytundeb cyflawni ar gyfer rhoi Cynllun Datblygu Lleol newydd yn ei le. Bydd y Cynllun hwn angen cyfarch unrhyw ddatblygiad niwclear yn digwydd ar yr Ynys o ran y cyfnod adeiladu, gweithredol a digomisiynu yn ogystal a cyfarch a cynnig sail bolisi effeithiol ar gyfer y datblygiadau ar effeithiau cysylltiedig ac unrhyw ddatblygiad niwclear gan gynnwys (ond ddim wedi ei gyfyngu i) faterion yn ymwneud â darpariaeth priffyrdd, tai, gwasanaethau, yr amgylchedd, yr Iaith Gymraeg a diwylliant ac yn y blaen.
- 1.19 Mae'r Cyngor felly'n edrych am eglurdeb fel mater o frys os bydd rhaglen datblygiadau niwclear Llywodraeth y DU a'r Datganiad Polisi Cenedlaethol yn adnabod safle'r Wylfa ar gyfer datblygiad niwclear newydd boed hynny ar raddfa SMR neu GW er mwyn gallu cynllunio ar gyfer y dyfodol a sicrhau ein bod yn 'creu Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus lle gall bobl ffynnu' (Gweledigaeth Cynllun y Cyngor 2023-28¹).
- 1.20 Mae profiad hirdymor y Cyngor a'r cymunedau y mae yn ei gynrychioli o ran lletya gorsaf bŵer Wylfa A, ynghyd â chynigion Horizon ar gyfer Wylfa Newydd, wedi creu pwyntiau dysgu pwysig, yn enwedig yng nghyswllt ymgysylltu â'r gymuned a'i hymrwymo. Mae hyn hefyd wedi creu diwylliant sefydliadol lle rydym yn gyfarwydd ag adnabod y buddion a'r effeithiau a all ddeillio o letya gorsaf niwclear.
- 1.21 Mae'r Cyngor yn ystyried ei bod yn hanfodol i GBN, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ddeall a dysgu o'r profiadau hyn fel y mae'n ffurfio ei strategaeth hir dymor ar gyfer rhaglen datblygiadau ynni niwclear yn y DU. Maer Cyngor yn cadarnhau ei fod yn barod i barhau i gydweithio gyda'r tri corff ynghyd â phartneriaid eraill er mwyn rhannu a dysgu o'r profiadau a'r dealltwriaeth hyn er mwyn sicrhau strategaeth effeithiol a llwyddiannus sydd gyda'r gymuned letya yn ganolbwynt ac yn brif ffocws o'r cychwyn.
- 1.22 Mae'r Cyngor yn ystyried bod ymgysylltiad a chydweithrediad cynnar ac ystyrlon â'r holl rhanddeiliaid allweddol (gan gynnwys yr Awdurdod lletya a'r gymuned letya yn arbennig) yn hanfodol.
- 1.23 O ran cael cefnogaeth y gymuned, mae bod yn agored, ynghyd ag ymddiriedaeth a pharch, yn cael eu hystyried yn nodweddion allweddol, nid yn

¹ [Cynllun y Cyngor 2023 i 2028 \(llyw.cymru\)](#)

unig o safbwynt y datblygwr, ond hefyd o ran rhanddeiliaid allweddol (gan gynnwys Llywodraeth y DU/Great British Nuclear (GBN) a Llywodraeth Cymru).

- 1.24 Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi amlygu yn ddiweddar y potensial o ran symleiddio / gwella'r broses gydsynio a thrwyddedu ar gyfer prosiectau o arwyddocâd cenedlaethol.
- 1.25 Mae ymrwymiad y Cyngor yn y broses gydsynio (yn enwedig o ran cynrychioli ei gymunedau) yn hanfodol bwysig. Yn nhermau cynnig Horizon ar gyfer Wylfa Newydd, roedd yr Adroddiad ar yr Effaith Lleol (LIR), a baratowyd gan y Cyngor fel yr awdurdod lletya yn adroddiad allweddol y cyfeiriodd yr Arolygydd ati yn rheolaidd yn ystod yr archwiliad o'r cais.
- 1.26 Yn y cyd-destun hwn mae yn bwysig nodi fod yr Ynys yn Ynys wahanol iawn ers i'r Cyngor ffurfio ei safbwynt ar gyfer prosiect Wylfa Newydd Horizon. Bydd rhan nesaf ein tystiolaeth yn mynd ati i amlygu'r newidiadau hyn. Mae'r Cyngor yn cadarnhau y bydd angen i unrhyw ddatblygwr fod yn llwyr ymwybodol o nodweddion yr Ynys er mwyn meithrin dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth lawn o'r cyd-destun ar gyfer datblygu a lleoli datblygiad a hefyd er mwyn mynd ati i adnabod ac asesu graddfa posib yr effeithiau tebygol er mwyn ei diddymu, lleihau neu ddigolledu i lefel sy'n dderbyniol i bawb.
- 1.27 O ran y cydsynio a thrwyddedu, cred y Cyngor ei bod yn angenrheidiol fod y prosesau hyn yn eu gwneud hi'n ofynnol i'r datblygwr orfod ymgysylltu gyda'r cymunedau hynny a effeithir arnynt fwyaf gan ddatblygiad o raddfa mor fawr mewn modd buan, priodol ac effeithiol.
- 1.28 Mae hyn ar gyfer sicrhau bod gan y datblygwr, yn nyddiau cynnar y datblygiad, ddealltwriaeth gyflawn o'r cyd-destun lleol (sy'n arbennig o bwysig o fewn amgylchedd unigryw fel Ynys Môn er enghraifft) a hefyd i ganiatáu i'r cymunedau fynd ati i godi pryderon y gellir eu datrys trwy wneud addasiadau i'r dyluniad ac i adnabod ac amlygu'r cyfleoedd ar gyfer sicrhau ac uchafu buddion lleol.
- 1.29 Gan fod gan y Cyngor rôl allweddol fel yr awdurdod lleol, yr awdurdod lletya a'r awdurdod cynllunio lleol mewn perthynas â unrhyw ddatblygiad ar safle'r Wylfa yn y dyfodol mae'r Cyngor yn cadarnhau ei bod yn angenrheidiol iddo gael y capasiti a'r adnoddau priodol i'w alluogi i chwarae rhan lawn ac effeithiol yn y broses a hynny o gyfnod camau cychwynnol y broses dylunio datblygiad er mwyn cynghori a dylanwadu er budd y cymunedau a gynrychiolir ganddo.
- 1.30 O ran cynigion Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) blaenorol Horizon ar gyfer Wylfa Newydd, bu i Gytundeb Perfformiad Cynllunio (PPA) gael ei gytuno rhwng y Cyngor a Horizon. Roedd y PPA yn fecanwaith effeithiol a alluogwyd i'r Cyngor gael y capasiti a'r adnoddau angenrheidiol trwy gydol y cyfnod o ymgysylltu gyda'r prosiect hwnnw.

- 1.31 Rydym yn rhannu'r panel ar gyfer y sesiwn tystiolaeth yma gydag Uchelgais Gogledd Cymru. Mae'r Cyngor yn cadarnhau fod parodrwydd ac aeddfedrwydd yn bodoli er mwyn gallu cyd-weithio i uchafu'r buddion o unrhyw brosiect yn Wylfa neu Trawsfynydd ar lefel ranbarthol ond eto rydym yn cadarnhau y byddai'r heriau/effeithiau negyddol yn deillio o brosiect yn Wylfa a Trawsfynydd yn debygol o ddigwydd a chael ei deimlo yn lleol iawn i'r prosiectau ac yn ymestyn i ardal Gogledd Cymru ac y bydd angen mabwysiadu a gweithredu'r egwyddor agosatrwydd o ran trafodaethau ynghylch sicrhau mesurau lliniaru gan gynnwys iawndal.
- 1.32 Mae'r Cyngor yn gobeithio fod y cyd-destun uchod o gymorth wrth i ni ymateb i'r cwestiynau penodol a ofynni'r gan y Pwyllgor yn rhan nesaf ein hymateb.

2.0 Pa effaith economaidd bosibl y gallai datblygiadau niwclear newydd yng ngogledd Cymru ei chael ar yr economi ranbarthol?

- 2.1 Mae gan yr ynys a'i chymunedau berthynas hirdymor a chadarnhaol gyda'r sector niwclear. Mae hyn oherwydd bod yr Ynys, ei thrigolion a'i chymunedau wedi profi'r buddion economaidd a cymdeithasol hirdymor sydd wedi'u gwireddu ar lefel lleol (Gogledd yr Ynys a'r Ynys gyfan) a rhanbarthol trwy gydol cyfnod gweithredu gorsaf Wylfa A ac sy'n parhau i gael ei deimlo wrth i'r orsaf fynd trwy'r cyfnod datgomisiynu.
- 2.2 Mae'r tabl isod yn cadarnhau Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) yr Ynys mewn perthynas ag Awdurdodau eraill Gogledd Cymru ynghyd a Chymru a'r Deyrnas Unedig.

Mesur Cyfanswn (£ milliwn)			2012	2013	2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021
DU			1507777	1568990	1643394	1702910	1771588	1845519	1904933	1980679	1891068	2025600
Cymru			53163	55077	56482	58434	60833	62917	65167	67955	64634	69500
Cymru	Gogledd Cymru		12134	12706	12735	13177	13598	14198	14708	15182	14401	15647
	Gogledd Cymru	Ynys Mon	860	865	867	916	976	1005	1071	1140	973	1035
		Gwynedd	2089	2197	2182	2226	2234	2341	2378	2469	2215	2453
		Conwy	1414	1519	1575	1643	1710	1828	1848	1878	1773	1788
		Dinbych	1437	1527	1575	1598	1674	1751	1816	1849	1832	1957
		Fflint	3562	3678	3673	3869	4063	4265	4394	4468	4322	4877
		Wrecsam	2772	2920	2863	2925	2941	3008	3201	3378	3286	3537

- 2.3 Mae'r tabl uchod yn cadarnhau er bod twf blynyddol yn GYC yr Ynys, mae'r twf yn gryn dipyn yn is na hynny yng Ngogledd Cymru, Cymru a'r DU.
- 2.4 Mae'r rhan fwyaf o'r cyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael yma ym Môn erbyn hyn yn y sectorau amaeth, twristiaeth a manwerthu - sectorau sydd â gwerth isel, cyflog isel ac sy'n cynnig cyfleoedd tymhorol.
- 2.5 Oblygiadau hyn yw bod pobl ifanc yn allfudo, demograffeg anghytwys, anweithgarwch economaidd, mwy o bwysau ar wasanaethau ac effaith andwyol ar yr Iaith Gymraeg a chymunedau'r Ynys.

- 2.6 Mae canlyniadau'r cyfrifiad diweddaraf yn cadarnhau'r effeithiau hyn;
- *Rhwng y ddau gyfrifiad diwethaf (a gynhaliwyd yn 2011 a 2021), bu gostyngiad o 1.3% ym mhoblogaeth Ynys Môn, o ychydig llai na 69,800 yn 2011 i tua 68,900 yn 2021.*
 - *Rhwng y ddau gyfrifiad diwethaf, cynyddodd oedran cyfartalog (canolrif) Ynys Môn o dair blynedd, o 45 i 48 oed. (oedran cyfartalog (canolrif) uwch na Chymru gyfan (42 oed).*
 - *Cododd nifer y bobl rhwng 65 a 74 oed tua 1,200 (cynnydd o 14.2%), tra bu gostyngiad o tua 2,300 yn nifer y trigolion rhwng 35 a 49 oed (gostyngiad o 17.2%).*
 - *Gostyngodd canran siaradwyr Cymraeg Ynys Môn o 57.2% yn 2011 i 55.8% yn 2021.*
 - *O drigolion Ynys Môn 16 oed a hŷn, dywedodd 49.9% eu bod yn gyflogedig (ac eithrio myfyrwyr amser llawn) yn 2021, i lawr o 51.3% yn 2011.*
 - *Yn 2021, dywedodd ychydig dros 1 o bob 40 o bobl (2.6%) eu bod yn ddi-waith, o gymharu â 4.1% yn 2011.*
 - *Cynyddodd canran trigolion Ynys Môn wedi ymddeol o 28.6% yn 2011 i 30.5% yn 2021.*
- 2.7 Mae safle Gorsaf Bŵer y Wylfa Magnox wedi ei lleoli yng Ngogledd yr Ynys a'r tir drws nesaf oedd yn destun prosiect Wylfa Newydd Horizon.
- 2.8 Fel sydd eisoes wedi ei amlygu, mae cymunedau Môn, ac yn enwedig y cymunedau hynny yng Ngogledd Môn, yn parhau i deimlo'r siom a'r effaith o brosiect Wylfa Newydd Horizon yn cael ei ddiddymu.
- 2.9 Mae'r ardal a adnabyddi'r fel Gogledd Ynys Môn yn cynnwys traean o Ynys Môn. Yn 2021 dim ond 2,285 o swyddi oedd yng Ngogledd Ynys Môn – llai na 10% o holl swyddi Ynys Môn. Mae'r ardal bellach yn cael ei dominyddu gan economi sylfaenol – yn benodol sectorau llety a gwasanaethau bwyd, sydd fel arfer yn cynnig cyflogau isel ond maent bellach yn cefnogi twristiaeth a lletygarwch.

2.10 Mae'r tabl isod yn cadarnhau'r colli swyddi sydd wedi ei brofi ar yr Ynys ac yn benodol yng Ngogledd yr Ynys wrth i gyflogwyr benderfynu cau;

Blwyddyn	Cwmni	Colled mewn swyddi
Gogledd Môn		
2004	Octel	100 i 120
2015	Wylfa Magnox	300 i 350
2019	Rehau	100
Cyfanswm Gogledd Môn		500 i 570
Eraill ar yr Ynys		
2008	Peboc	60
2008	Eaton Electrical	265
2009	Anglesey Aluminum	300 i 400
2013	Welsh Country Foods	300 i 350
2019	Marco Cable Management	40
2022	Orthios	120
2023	2-Sisters	730
Cyfanswm		2,315 i 2,535

2.11 Mae colli swyddi yn y diwydiannau hanesyddol wedi arwain at Ogledd Môn ond yn cyfrannu 13% o gyfanswm GYC Ynys Môn yn 2020. Mae hyn wedi disgyn 17% ers 1998. Rhwng 1998 a 2020, tyfodd GYC Gogledd Ynys Môn 39%, llai na hanner y twf cyfatebol ar draws gweddill yr Ynys.

2.12 Mae natur ymylol lleoliad Ynys Môn yn golygu bod trigolion yn cymudo yn y Gogledd ac yn gadael Gogledd Ynys Môn yn bennaf i weithio ond ddim yn gadael yr Ynys. Yng Nghyfrifiad 2011, dim ond 35% o drigolion cymudo Gogledd Ynys Môn oedd hefyd yn gweithio yng Ngogledd Ynys Môn ond yn gyfan gwbl arhosodd 71% ar yr Ynys. Mewn cymhariaeth, mae 50% o drigolion cymudo yn Llangefni, hefyd gweithio yn Llangefni.

2.13 Mae Amlwch, anheddiad mwyaf Gogledd Ynys Môn yn y 30% uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer Incwm a Chyflogaeth ac yn yr 20% mwyaf difreintiedig ar gyfer Mynediad i Wasanaethau. Mae trigolion

yn fwyfwy dibynnol ar fanciau bwyd: rhwng Tachwedd 2022 a mis Mawrth 2023, cynyddodd y defnydd ym manciau bwyd Amlwch bron i 155%.

- 2.14 Roedd penderfyniad 2Sisters i gau ei ffatri yn Llangefni ar ddechrau'r flwyddyn hon oherwydd y cynnydd mewn costau cynhyrchu yn ergyd sylweddol i'r Ynys.
- 2.15 Roedd 2Sisters yn un o bum busnes mawr ar yr Ynys (yn cael ei adnabod yn cyflogi dros 250+ o weithwyr) ac mae cau'r ffatri wedi arwain at golli 4% o gyflogaeth oherwydd y 730 o swyddi a gollwyd a bydd yn cael sgil-ffeithiau pellach o £400,000 y flwyddyn a gollwyd mewn contractau cyflenwyr yn Ynys Môn.
- 2.16 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gan unrhyw brosiect niwclear newydd yn Wylfa'r potensial i drawsnewid economi Ynys Môn, yn enwedig gogledd yr ynys, yn ogystal â rhanbarth Gogledd Cymru a thu hwnt, ynghyd â darparu'r posibilrwydd o gyfleoedd tymor byr, tymor canolig a hirdymor o safbwynt cyflogaeth a datblygu economaidd. Byddai hyn yn sicrhau cyfleoedd i'n pobl ifanc, un ai o ran eu cadw yma neu yn eu denu nôl ac felly byddai'n cael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg a'n cymunedau.
- 2.17 Bu i Gynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn 'gal ei ddiwygio yn dilyn penderfyniad Hitachi i atal cynllun Wylfa Newydd ac i ffatri Rehau gau, dwy ergyd ddifrifol i ragolygon economaidd cymunedau'r Gogledd a oedd yn atgyfnerthu'r angen am raglen weithredu i ddiwallu anghenion y Gogledd.
- 2.18 Mae'r Cynllun yn nodi gweledigaeth ar gyfer ardal Gogledd Ynys Môn ac yn adnabod y cyfleoedd sy'n cynnwys cynnig posib o orsaf bŵer niwclear, y cyfleoedd sydd ar gael o'r cyfnod datgomiysu yr orsaf bresennol, manteisio ar Gynllun Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru, elwa ar bosibiliadau'r ardal o ran twristiaeth a gwneud y mwyaf o'r ymdeimlad o gymuned a lle.
- 2.19 Mewn digwyddiad yn y Senedd gan y Gymdeithas Diwydiant Niwclear ym Mis Medi, bu i Kieron Salter, Peiriannydd Trydanol sydd yn gweithio ar brosiect Hinkley Point C, sy'n wreiddiol o Llangefni ar Ynys Môn sôn am ei atgofion fel plentyn o ymweld â gorsaf Wylfa, cwblhau cyfnod o brofiad gwaith yna a dyma wnaeth ei ysgogi i ddewis llwybr gyrfa yn y sector niwclear gyda'r gobaith o weithio ar brosiect Wylfa Newydd Horizon.
- 2.20 Roedd Kieron yn un o'r unigolion hynny o'r Ynys a fu'n llwyddiannus i gael dilyn prentisiaeth gyda Horizon 7 mlynedd yn ôl. Ar y pryd roedd Kieron yn 17 mlwydd oed ac yn hynod o falch o gael dilyn llwybr gyrfa fyddai yn ei alluogi i aros yma ar yr Ynys i weithio a byw gyda'i deulu a ffrindiau.
- 2.21 Pan fu Horizon benderfynu peidio parhau a phrosiect Wylfa Newydd mae Kieron yn disgrifio'r siom a wynebwyd gan y 33 o brentisiaid a oedd ar y Rhaglen Prentisiaeth. Bu i EDF gymryd Kieran mlaen i gwblhau ei brentisiaeth ac erbyn heddiw mae yn gweithio fel Peiriannydd Trydanol gyda EDF. Yn amlwg roedd hyn yn golygu fod Kieron wedi gorfod symud o Fôn i allu cwblhau ei brentisiaeth, symud o ei gynefin ar hyn roedd yn gyfarwydd iddo ac ymhell oddi wrth y Gymraeg a'i ddiwylliant Cymreig. Dywedodd Kieran yn y digwyddiad yn y Senedd;

“Mae niwclear i mi yn golygu sefydlogrwydd, cyfle i genedlaethau a swydd am oes. Roeddwn yn hollol siomedig pan fethodd prosiect Wylfa Newydd gael ei wireddu. Rwyf yn gobeithio un diwrnod y caf symud yn nol adra i Fôn i weithio pam fydd gorsaf newydd mewn lle yn Wylfa”.

“Mae gweithio yn Hinkley Point C wedi ehangu fy ngweledigaeth o ran yr hyn y gall niwclear newydd ei gyfrannu i'r economi yn yr ardal leol. Yn ystod y gwaith adeiladu fe fydd miloedd o gyfleoedd ar gael. O arllwys concrit i weldio, codi gwaith dur, gyrru peiriannau trwm, gyrru bysiau, coginio bwyd, rheoli gwestai. Mae' posibiladau yn ddi-ddiwedd o ran y cyfleoedd a ddaw yn ei sgil. Unwaith y bydd wedi'i adeiladu, bydd yn cyflogi cannoedd o bobl i'w gadw i weithredu. Mae'r cyfleoedd a ddaw yn sgil prosiect o'r maint hwn yn aruthrol, gan ddod â budd enfawr i Gymru ac yn helpu i gyflawni targedau sero net”.

- 2.22 Yn ein Hadroddiad ar yr Effaith Leol (LIR) ar gyfer datblygiad Wylfa Newydd Horizon, bu i'r Cyngor gadarnhau bod gan y prosiect y potensial i gyfrannu at newid hirdymor yn strwythur economi Ynys Môn. Roedd gan y prosiect y potensial i greu swyddi â chyflogau uwch yn ystod pob cyfnod o'r prosiect, gan symud busnesau lleol i fyny'r gadwyn gyflenwi a denu busnesau newydd a mewnfuddsoddiad cysylltiedig â'r prosiect.
- 2.23 O ran y buddion economaidd-gymdeithasol posibl a fyddai'n codi o ganlyniad i adeiladu a gweithredu gorsaf bŵer niwclear ar yr Ynys, o safbwynt lleol, rhanbarthol ac yn ehangach na hynny, fe gawsant eu hasesu a'u nodi fel rhan o'r Datganiad Amgylcheddol (DA) a gyflwynwyd fel rhan o gais Horizon am Orchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) ar gyfer ei datblygiad arfaethedig Wylfa Newydd. Roedd y prif fuddion yn cynnwys;
- *O ran y galw am weithwyr yn ystod y cyfnod adeiladu, roedd dadansoddiad Horizon (ar gyfer datblygiad ar raddfa GW+) yn awgrymu y byddai angen cyfanswm o 9,000 o weithwyr ar gyfnod anterth y prosiect, gyda'r posibilrwydd y byddai tua 2,000 o'r swyddi hyn yn cael eu cyflawni gan weithwyr oedd yn byw o fewn y parth cymudo dyddiol (90-munud i'r safle) yn ystod y cyfnod adeiladu;*
 - *Defnyddiodd Horizon luosydd ychwanegol o 1.9 i gyfrifo'r swyddi anuniongyrchol a'r rhai a gaiff eu creu yn sgil y datblygiad, ac roedd hyn yn awgrymu y byddai 1,800 o swyddi eraill yn cael eu creu trwy'r gwaith adeiladu o fewn y parth cymudo dyddiol*
 - *Allan o'r 850 swydd yn ystod y cyfnod gweithredol, ymrwymiad i 85% o'r swyddi yma i fod yn swyddi i bobl leol - byddai'r rhain yn swyddi gyda chyflogau uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol;*
 - *Gwariant lleol o £200-£400m yn cael effaith gadarnhaol yn syth;*
 - *Darparu cyfleoedd i fusnesau ennill contractau am nifer o flynyddoedd gan felly sicrhau bod swyddi'n cael eu creu;*
 - *Angen i fusnesau'r ardal uwchsgilio i ddod yn rhan o'r gadwyn gyflenwi. Yn ei dro, bydd hyn yn gadael etifeddiaeth barhaol o ennill contractau pellach a dod yn fwy cystadleuol;*
 - *Sicrhau bod porthladd Caergybi yn chwarae rôl weithredol ac ystyrllon yn y gadwyn gyflenwi yn arwain at fuddsoddiad uniongyrchol gan greu nifer o swyddi dros y cyfnodau adeiladu a gweithredol, am nifer o flynyddoedd;*

- *Byddai'r datblygiad yn arwain at greu safleoedd ac adeiladau ychwanegol ar yr Ynys ac yng Ngogledd Cymru ar gyfer busnesau brodorol a mewnfuddsoddwyr;*
 - *Cyfleoedd anuniongyrchol - Er na fyddent yn uniongyrchol gysylltiedig â datblygiad Wylfa Newydd, byddai digonedd o gyfleoedd anuniongyrchol ar gael gan gynnwys darparu llety ar gyfer y gweithwyr adeiladu, coginio, glanhau ac yn y blaen.*
- 2.24 Mae'r wybodaeth uchod yn cadarnhau gwerth a graddfa'r buddion posib sy'n bosib i'r Ynys a'r rhanbarth wrth letya gorsaf bŵer graddfa GW. Mae data'r cyfrifiad a'r data ar gyfer Gogledd Môn sydd wedi ei chyflwyno hefyd yn gynharach yn ymateb y Cyngor yn cadarnhau fod Gogledd Môn wir angen buddsoddiad mewn prosiect a fyddai yn sicrhau cyfleoedd lleol trawsnewidiol gan sicrhau ffyniant.
- 2.25 Tra bo llawer o'r dystiolaeth fanwl sydd ar gael i gefnogi sylwadau gwybodus, o ran effaith economaidd posibl gorsaf bŵer niwclear newydd yn Wylfa wedi canolbwyntio ar ddatblygiad ar raddfa GW+, mae'r Cyngor yn ymwybodol y gallai cynigion ar gyfer datblygiad niwclear ar y safle gynnwys SMR / AMR ar raddfa MW yn y dyfodol hefyd. Byddai'r effeithiau economaidd-gymdeithasol yn wahanol i'r rheiny o ganlyniad i gynnig ar raddfa GW.
- 2.26 Mae gwaith a gwblhawyd gan Ove Arup and Partners Ltd ar gyfer Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ar y posibilrwydd o leoli SMR / AMR yn Nhrawsfynydd. Fodd bynnag, mae'n darparu gwybodaeth ychwanegol ddefnyddiol sy'n berthnasol i Ogledd Cymru a Chymru ar lefel ehangach.
- 2.27 Roedd y dadansoddiad hwn yn ystyried amryw senarios o ran lleoli, ynghyd â chyfleoedd o ran cyflogaeth yn sgil hynny, a gweithgaredd o ran y gadwyn gyflenwi ehangach, a allai ddeillio o leoli SMR / AMR. Cwblhawyd cyfrifiadau o ran gwerth ychwanegol gros (GVA), ac fe'i cysylltwyd â chyfleoedd i greu swyddi. Gan ystyried dadansoddiad o'r gwaith adeiladu ar ei anterth yn 2027, awgrymwyd y byddai tua 1,520 o swyddi o fewn ardal Gogledd Cymru, gyda 1,370 o swyddi eraill o fewn y gadwyn gyflenwi. O ran canlyniadau economaidd, daeth yr adroddiad i'r casgliad, ar eu hanterth, y gallai cyfnodau adeiladu gynhyrchu £41.6miliwn mewn GVA yng ngogledd orllewin Cymru, ynghyd â GVA cyffredinol o £177.5miliwn ledled Cymru.
- 2.28 Tra bo'r ffigyrau hyn, ar gyfartaledd, yn is (fel y gellir ei ddisgwyl) na'r rheiny o ran amcangyfrifon ar gyfer adeiladu datblygiad niwclear ar raddfa GW+, er hynny, maent yn dangos y gellir gwneud cyfraniad sylweddol o ganlyniad i leoli SMR / AMR o fewn gogledd orllewin Cymru, ac yng Nghymru 'n fwy cyffredinol, ac mae'n hanfodol i'r ynys a'r rhanbarth allu elwa'n llawn ar y cyfleoedd hyn.
- 2.29 Pe bai cynigion ar gyfer SMR / AMR yn cael eu cyflwyno cyn unrhyw ddatblygiad ar raddfa GW+, byddai'r Cyngor yn disgwyl i unrhyw ddatblygwr fod yn gyfarwydd â'r amryw faterion a nodir o fewn y dystiolaeth hon, a bod angen eu trafod yn fanwl yn gynnar mewn unrhyw broses ddatblygu. Dylai hyn adeiladu ar yr amryw ystyriaethau o safbwynt economaidd (ac ehangach) o fewn cynigion Horizon ar gyfer Wylfa Newydd. Mae'r Cyngor hefyd yn

cydnabod y potensial o ran cyflwyno datblygiadau ar gyfer adweithyddion ar raddfa GW+ a datblygiadau SMR / AMR ar raddfa MW yn Wylfa ar yr un pryd. O ran materion o'r fath, yn enwedig o ran gorfod delio â thimau gwahanol ddatblygwyr, byddai angen sicrhau ymgysylltiad a chydweithrediad cynnar rhwng y Cyngor a'r holl randdeiliaid allweddol perthnasol, i sicrhau bod modd gwneud y gorau o effeithiau cadarnhaol, ynghyd â lliniaru effeithiau andwyol a chyflwyno mesurau digolledu priodol ar eu cyfer.

- 2.30 O ran cael capasiti i adael etifeddiaeth barhaus yng nghyswllt creu swyddi, gwella sgiliau a'r effaith economaidd gyffredinol yn nhermau Gwerth Ychwanegol Gros (GVA), ceir tystiolaeth y gall prosiectau pŵer niwclear greu newid sylweddol ar draws cymunedau am sawl cenhedlaeth. Byddai'r Cyngor yn dymuno gweld cyfleoedd gwirioneddol yn cael eu creu'n gynnar er mwyn diogelu'r buddion hyn. Dylai'r modd y gellir manteisio arnynt fod yn glir a dylid darparu cymorth i wneud hynny, i bobl a busnesau o fewn ardal ofodol Ynys Môn a rhanbarth Gogledd Cymru a thu hwnt. Bydd angen i unrhyw fuddion o'r fath adlewyrchu ac ymateb yn llawn i gynefinoedd a thirwedd (ac asedau naturiol ehangach) gwarchoddedig a sensitif yr ynys, sy'n ei gwneud yn gyrchfan mor bwysig i dwristiaid, ac maent yn allweddol i economi'r ynys.
- 2.31 Trwy ei ymgysylltiad parhaus â Horizon mewn perthynas â datblygiad Wylfa Newydd, bu i'r Cyngor drafod a chytuno pecyn o fesurau lliniaru a digolledu i helpu i'r Cyngor, y cymunedau a effeithir a phartneriaid i ddelio â'r effeithiau a nodwyd yn y Datganiad Amgylcheddol (effeithiau cadarnhaol a negyddol). O ran y sicrhau cyfleoedd gwaith, sgiliau a chadwyn gyflenwi lleol roedd hyn yn cynnwys Horizon yn paratoi Strategaeth Swyddi a Sgiliau, ynghyd â Chynllun Gweithredu ar gyfer y Gadwyn Gyflenwi, a oedd yn cadarnhau mesurau a dulliau a fyddai'n cael eu rhoi ar waith ar gyfer uchafu cyfleoedd a buddion lleol ynghyd â lleihau effeithiau andwyol posib gan gynnwys y posibilrwydd o ddadleoli.
- 2.32 Trwy gydol y cyfnod cyn ymgeisio a chyflwyno'r cais am GCD (DCO), cyflwynodd y Cyngor sylwadau helaeth ynghylch yr angen i sicrhau cefnogaeth briodol i'r cymunedau lletya trwy becynnau rhwymedigaethau C106 / cynlluniau buddion cymunedol, i fynd i'r afael ag effeithiau a gwneud y gorau o'r effeithiau cadarnhaol o ganlyniad i'r cynigion. Roedd hyn yn cynnwys mesurau o fewn y C106 i sicrhau bod y Cyngor yn gallu mynd i'r afael â'r pwysau ychwanegol ar y farchnad dai, sector addysg a'r iaith Gymraeg, gwasanaethau cyhoeddus, priffyrdd, twristiaeth a hamdden ar amgylchedd i enwi dim ond rhai.
- 2.33 O ran unrhyw gynigion ar gyfer datblygiad niwclear newydd yn Wylfa, byddai'r Cyngor yn disgwyl i faterion o'r fath gael eu hystyried yn llawn o'r cychwyn cyntaf, gan wneud hynny wrth fabwysiadu'r Egwyddor Agosrwydd.
- 2.34 Tra bod y cyfleoedd posib o letya gorsaf bŵer ar yr Ynys wedi cael eu hadnabod mae'r Cyngor yn parhau, fel yr amlygwyd yn y cyflwyniad, i edrych am sicrwydd un ffordd neu'r llall os bydd datblygiad yn digwydd ar safle'r Wylfa - boed hynny yn ddatblygiad graddfa modwlar bychain neu GW. Mae'r

cadarnhad yma yn cael ei geisio gan ein trigolion, ein cymunedau, busnesau a'r gadwyn gyflenwi yn ogystal â'r datblygwyr eu hunain.

- 2.35 Nid oes modd codi gobeithion ein trigolion a'n cymunedau am y cyfleoedd posib a fydd ar gael o ran swyddi, sgiliau ar gadwyn gyflenwi heb dderbyn cadarnhad pendant y bydd datblygiad yn digwydd ynghyd ag amserlen. Byddai hyn yn galluogi pawb i baratoi ar y cyd ac i sicrhau bod y cyfleoedd lleol gorau posib yn cael eu sicrhau.

3.0 Beth ellir ei wneud i sicrhau bod unrhyw brosiectau niwclear newydd yn cynyddu cyflogaeth leol a chadwyni cyflenwi lleol neu yng Nghymru i'r eithaf?

- 3.1 Fel sydd eisoes wedi ei adnabod, fel mater o flaenoriaeth, mae'r Cyngor a chymunedau'r Ynys angen cadarnhad a fydd datblygiad niwclear newydd yn digwydd yn Wylfa ynghyd â chadarnhad o'r amserlen.

- 3.2 Byddai hyn yn galluogi'r Cyngor a'r holl randdeiliaid a phartneriaid perthnasol i fynd ati i roi mewn lle rhaglenni gwaith er mwyn sicrhau bod yr Ynys, ein trigolion, y cymunedau a'r economi leol yn barod i gymryd mantais o bob cyfle daw yn sgil datblygiad niwclear yn Wylfa a/neu Trawsfynydd.

- 3.3 Fel cam cyntaf mae'n angenrheidiol cyflawni'r canlynol;

- *Adnabod beth sydd ar gael yn lleol a rhanbarthol o ran cyflogaeth, sgiliau a chadwyn gyflenwi;*
- *Adnabod anghenion y datblygwr;*
- *Adnabod bylchau o ran yr angen am sgiliau, cyflogaeth a chadwyn gyflenwi*
- *Rhoi ar waith trwy bartneriaeth cynlluniau a rhaglenni er mwyn delio gyda'r bylchau mewn modd amserol. Byddai hyn yn cynnwys gweithio gyda'r ysgolion, colegau a phrifysgolion lleol.*
- *Adnabod pa ddatblygiadau a phrosiectau eraill sydd ar waith yn ystod yr un cyfnod a beth yw eu hanghenion hwy o ran sgiliau a chadwyn gyflenwi;*
- *rhoi ar waith prosiectau i ennyn diddordeb ein pobl ifanc mewn STEM*

- 3.4 Er bod rhai gweithgareddau a rhaglenni mewn lle eisoes ar lefel rhanbarthol a Chymru er mwyn adnabod rhai o'r uchod, nid oes modd rhoi rhaglen waith mewn lle mewn modd cyflawn tan fod sicrwydd y bydd datblygiad yn digwydd yn Wylfa a/neu Trawsfynydd ynghyd â chadarnhad o raddfa'r datblygiad, amserlen datblygiad ynghyd â gallu cyd-weithio gyda'r datblygwr er mwyn gallu bod yn hollol eglur ar ei anghenion.

- 3.5 Fel sydd eisoes wedi ei adnabod mi fyddai gwahaniaeth yn bodoli o ran anghenion prosiect modwlar bychain neu GW ac felly mae angen y cadarnhad yma cyn yr holl rhanddeiliaid a phartneriaid ddod at ei gilydd i gynllunio tua'r dyfodol er mwyn sicrhau bod y cyfleoedd yn cael eu manteisio arnynt i'r eithaf yn lleol.

- 3.6 O ran unrhyw ddatblygiad niwclear newydd yn Wylfa, mae'r rhanddeiliaid allweddol o ran swyddi, sgiliau a chadwyn gyflenwi yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) y Cyngor, Llywodraeth Cymru, Uchelgais Gogledd Cymru, Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, M-Sparc, Menter Môn, Grŵp Llandrillo Menai, Prifysgol Cymru Bangor, Nwana, WNF a'r NIA. Mae'r holl bartneriaid yn barod i gyd-weithio fel y bu i ni wneud gyda phrosiect Wyfla Newydd Horizon i sicrhau bod unrhyw ddatblygiad yn dod â buddion economaidd a cymdeithasol gwerth chweil i'r Ynys.
- 3.7 Mae cefnogaeth y Cyngor ar gyfer datblygiad niwclear newydd yn seiliedig ar y prosiect yn darparu buddion economaidd a cymdeithasol trawsnewidiol i'r cymunedau lletya yn unol â'r egwyddor agosatrwydd.
- 3.8 Bu i Horizon roi Strategaeth Swyddi a Sgiliau mewn lle ynghyd â sefydlu Gwasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau Wylfa Newydd a oedd yn cynnwys y Cyngor, Llywodraeth Cymru, y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, Adran Gwaith a Phensiynau, Colegau Addysg Bellach a'r prifysgolion yn y rhanbarth. Canolbwyntiodd y gwasanaeth ar y canlynol;
- rhagweld gofynion sgiliau a chadwyn gyflenwi'r prosiect
 - gweithio gydag ysgolion a darparwyr addysg i ymgysylltu â STEM;
 - cynnig cyfleoedd prentisiaethau a rhaglenni i raddedigion;
 - cynnig cyfleoedd o ran profiad gwaith;
 - gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau a phartneriaid i dargedu'r economaidd anweithgar a'r di-waith i rolau adeiladu
 - ehangu cyfleoedd cyflogaeth a sgiliau ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, menywod, pobl anabl a phobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol
- 3.9 Byddai'r Cyngor yn disgwyl i unrhyw ddatblygwr arall roi rhaglen debyg mewn lle er mwyn sicrhau presenoldeb ac ymgysylltedd lleol.
- 3.10 Bu i Goleg Menai yn Llangefni, rhan o Grŵp Llandrillo Menai, gyd-weithio a derbyn cefnogaeth ariannol gan Horizon i sicrhau bod eu campws a'r cyfleoedd oedd ar gael yno ar gyfer ei myfyrwyr a phrentisiaethau Horizon yn alinio a chyd-fynd â'r hyn y byddai prosiect Wylfa Newydd Horizon ei angen er mwyn sicrhau bod y buddion lleol yn cael ei uchafu yn enwedig i bobl ifanc yr Ynys. Mae'r Coleg hefyd wedi elwa yn fawr o gefnogaeth ariannol gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA). Roedd y penderfyniad i ddod â phrosiect Wylfa Newydd Horizon yn ergyd i'r Coleg ac i'w myfyrwyr oedd wedi gobeithio bod dyfodol iddynt o ran ei gyrfa yn yr orsaf yn Wylfa.
- 3.11 Bwriad y Grŵp yw cefnogi economi Gogledd Cymru drwy roi i'r bobl leol y sgiliau a'r cymwysterau sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y rhanbarth yn gystadleuol ac yn llwyddiannus. Mae'r amrywiaeth eang o gyrsiau, y profiadau dysgu o safon uchel, y cyfleusterau penigamp a'r staff amryddawn sydd gan y Grŵp oll yn cyfrannu at gyflawni'r nodau hyn.
- 3.12 Fel y Cyngor, mae'r Coleg yn bartner a rhanddeiliad pwysig a hefyd yn chwilio am gadarnhad pendant os bydd prosiect yn digwydd yn Wylfa a/neu Trawsfynydd er mwyn edrych tua'r dyfodol a blaengynllunio er mwyn sicrhau

ein bod yn barod am y cyfleoedd a bod y cyfleoedd a'r buddion yn cael eu manteisio arnynt i'r eithaf yn lleol.

- 3.13 Mae M-Sparc wedi ei leoli yng Ngaerwen ar yr Ynys, Parc Gwyddoniaeth cyntaf Cymru sy'n cynnig gweithle i denantiaid. Sefydlwyd M-SParc i yrru arloesedd yn ei flaen a darparu twf economaidd. Sefydlwyd tîm Egni yn 2021 i ddarparu cymorth arbenigol yn y sector carbon isel ac i fanteisio ar yr ystod eang o gyfleoedd yn y sector hwn ar draws Gogledd Cymru. Mae M-Sparc yn bartner pwysig yn lleol a rhanbarthol ac yn barod i gyd-weithio i sicrhau bod cyfleoedd cyflogaeth, sgiliau a chadwyn gyflenwi ar gael pe byddai datblygiad yn digwydd yn Wylfa a Thrawsfynydd. Yn y cyfamser a chyn i unrhyw gadarnhad pendant gael ei dderbyn ynghylch datblygiad yn Wylfa neu Trawsfynydd mi fydd M-Sparc yn parhau i ymgysylltu ac i gynnal rhaglenni a digwyddiadau STEM ac Academi M-Sparc.
- 3.14 Gan ystyried strategaeth y ddwy Lywodraeth i gyflawni sero net, ynghyd â chynnwys amryw o fathau o dechnoleg, mae'n hanfodol i sicrhau bod capasiti digonol a phriodol o ran swyddi, sgiliau a'r gadwyn gyflenwi ar gyfer y sector ynni adnewyddadwy yn ei gyfanrwydd. Unwaith eto, mae hyn yn gofyn am gydweithredu ac ymgysylltu ag amryw o randdeiliaid allweddol.
- 3.15 Mae portffolio datblygu'r Rhaglen Ynys Ynni yn eang iawn ac yn cynnwys datblygiadau ynni llanw, gwynt alltraeth, solar, hydrogen a datblygiad niwclear posibl yn Wylfa. Yn ogystal, mae cais ar y cyd rhwng y Cyngor a Stena Line wedi bod yn llwyddiannus yn gynharach yn y flwyddyn ac mae'r Ynys wedi derbyn statws Porthladd Rhydd. Mae sicrhau statws porthladd rhydd yn darparu potensial i ddarparu gwir newid i gymunedau ledled Ynys Môn a rhanbarth ehangach gogledd Cymru trwy ddenu buddsoddiad a datblygiad economaidd. Gobeithir y bydd y statws yn cyflymu a chataleiddio targedau ehangach gweledigaeth y Rhaglen Ynys Ynni. Byddai statws porthladd rhydd yn cefnogi creu amgylchedd busnes sy'n apelio at fuddsoddwyr a busnesau posibl yn y sector ynni. Maer rhagolygon yn cadarnhau fod gan y statws porthladd rhydd y potensial i greu rhwng 3500 a 13,300 o swyddi dros y 15 mlynedd nesaf gyda rhain yn swyddi newydd (dim yn swyddi wedi ei dadleoli).
- 3.16 Tu hwnt i'r Ynys, mae nifer o brosiectau ynni a seilwaith ar raddfa fawr ar y gweill neu'n cael eu cynllunio. Mae'r rhain yn cynnwys prosiectau sy'n cael eu datblygu fel rhan o Fargen Twf Gogledd Cymru, gan greu cystadleuaeth sylweddol am sgiliau, yn enwedig sgiliau adeiladu.
- 3.17 Mae angen ystyried amseriad a throsglwyddedd sgiliau rhwng yr holl brosiectau hyn ar lefel lleol a rhanbarthol gan y gallai hyn greu cystadleuaeth sylweddol am sgiliau, yn enwedig sgiliau adeiladu.
- 3.18 Mae angen sicrhau cysondeb a synergedd rhwng yr holl ddatblygiadau, datblygwyr a'r cyfleoedd a gyflwynir er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd cyflogaeth, sgiliau a chadwyn gyflenwi.
- 3.19 Fel Cyngor, rydym yn gyson yn ein safbwynt ar gyfer yr holl ddatblygiadau sy'n dymuno datblygu a bod yn weithredol ar yr Ynys ac yn cadarnhau ym mhob achos ei bod yn ddisgwyliedig i'r buddion economaidd a cymdeithasol

sy'n deillio o'r prosiectau gael eu manteisio arnynt i'r eithaf yn lleol yn unol â'r egwyddor agosatrwydd

- 3.20 Bydd y Cyngor yn dymuno i'r llinell sylfaen economaidd-gymdeithasol leol ar gyfer unrhyw brosiect fod yn gwbl gyfredol. Mae hyn yn holl bwysig er mwyn datblygu prosiect gyda dealltwriaeth lawn a hollol gyfredol o'r sefyllfa bresennol er mwyn gallu cynnal asesiad priodol a boddhaol o'r effeithiau posibl (negyddol a manteisiol;), gan arwain at ganfod mesurau lliniaru a chytuno arnynt.
- 3.21 Fel sydd eisoes wedi ei adnabod, fel mater o flaenoriaeth, mae'r Cyngor a chymunedau'r Ynys angen cadarnhad a fydd datblygiad niwclear newydd yn digwydd yn Wylfa ynghyd â chadarnhad o'r amserlen. Byddai hyn yn galluogi i'r Cyngor a'r holl randdeiliaid a phartneriaid perthnasol fynd ati i roi rhaglenni gwaith yn eu lle er mwyn sicrhau bod yr Ynys, ein trigolion, y cymunedau a'r economi leol yn barod i gymryd mantais o bob cyfle a fydd yn codi yn sgil datblygiad niwclear yn Wylfa a/neu Trawsfynydd.

4.0 Pa heriau y gallai'r prinder sgiliau presennol eu hachosi a sut y gellir goresgyn yr heriau hyn?

- 4.1 Tra bod y cyfleoedd posib o letya gorsaf bŵer ar yr Ynys wedi cael eu hadnabod yn gynharach yn ein hymateb, mae'r Cyngor yn parhau i edrych am sicrwydd un ffordd neu'r llall os bydd datblygiad yn digwydd ar safle'r Wylfa, boed hynny yn ddatblygiad graddfa modwlar bychain neu GW. Mae'r cadarnhad yma yn cael ei geisio gan ein trigolion, ein cymunedau a'r busnesau ar gadwyn gyflenwi yn ogystal â'r datblygwyr eu hunain.
- 4.2 Nid oes modd codi gobeithion ein trigolion a'n cymunedau am y cyfleoedd posib a fydd ar gael o ran swyddi, sgiliau a'r gadwyn gyflenwi heb dderbyn cadarnhad pendant y bydd datblygiad yn digwydd ynghyd ag amserlen. Byddai hyn yn galluogi pawb i baratoi ar y cyd ac i sicrhau bod y cyfleoedd lleol gorau posib yn cael eu sicrhau.
- 4.3 Yn amlwg, o ran prosiect o'r math hwn mae'r amrediad sgiliau sydd ei angen yn eang iawn ac rydym yn awyddus iawn i'r holl gyfleoedd gael eu manteisio arnynt i'r eithaf yn lleol. Fodd bynnag, ni allwn arwain ein pobl ifanc i fynd i'r sector hynny nac i bobl feithrin ar sgiliau newydd y bydd ei hangen ar brosiect or math heb gadarnhad pendant y bydd datblygiad yn digwydd ar safle'r Wylfa.
- 4.4 Mae'r Cyngor yn ymwybodol iawn bod prosiectau niwclear yn creu cyfleoedd pwysig o ran datblygu sgiliau a thwf ar lefel leol, rhanbarthol, Cymru a'r DU dros gyfnod o amser. Yn y cyd-destun hwn, caiff y Llywodraeth gyfle pwysig i barhau i ysgogi buddsoddiad mewn galluogi sgiliau, gan weithio gyda phartneriaid o fewn y diwydiant, ynghyd â'r byd academaidd a darparwyr dysgu, a hybiau arloesi sy'n cefnogi twf busnes.
- 4.5 Fe ddylai'r Llywodraeth barhau i fuddsoddi yn ei chymorth o ran datblygu'r gadwyn gyflenwi (er enghraifft, fel rhan o'r Rhaglen Arloesedd Ynni) er mwyn

caniatáu i'r gymuned sy'n lletya unrhyw ddatblygiad niwclear, o fewn y DU a Chymru, elwa ar y cyfle hwn sy'n datblygu o ran y farchnad ac mae hyn bellach hyd yn oed yn fwy perthnasol gan fod GBN wedi ei gyda'r dasg o adnabod rhaglen o ddatblygiadau niwclear yn y DU.

- 4.6 Fe ddylai'r Llywodraeth geisio sicrhau ei bod yn cynnal cysylltiadau rhwng y diwydiant, y byd academiaidd, cyrff ymchwil, cyrff cyhoeddus a phreifat, a dylai annog y rhai hynny a chanddynt gylch gorchwyl sy'n cynnwys cydweithredu rhanbarthol, fel Nwana, i barhau i ymgysylltu. Gyda chefnogaeth y Llywodraeth, fe ddylai'r DU sicrhau ei bod yn cynnal ac yn hybu'r gallu hirdymor o ran cynhyrchu / y cylch tanwydd, ochr yn ochr â chymwysiaid niwclear datblygedig newydd.

Crynodeb o prif sylwadau y Cyngor mewn perthynas â'r ymchwiliad:

- Mae'r dystiolaeth yn cadarnhau bod y Cyngor yn parhau i fod yn gefnogol i ddatblygiad niwclear ar safle Wylfa gan y byddai'n cynnig y cyfle i drawsnewid economi Gogledd yr Ynys, yr Ynys yn ei chyfanrwydd ynghyd â Gogledd Cymru a thu hwnt. Byddai hyn yn helpu i greu Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus lle gall bobl ffynnu yn unol â gweledigaeth Cynllun y Cyngor.
- Mae cefnogaeth y Cyngor yn un mewn egwyddor, a'r drwydded gymdeithasol i fwrw ymlaen â datblygiad niwclear, yn amodol ar weithredu'r egwyddorion a adnabyddir isod. Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod yr egwyddorion hyn yn berthnasol i ddatblygiad modwlar bychain ynghyd â datblygiad o'r raddfa GW ac yn cyd-fynd â safbwynt blaenorol y Cyngor o ran cynigion Pŵer Niwclear Horizon ar gyfer Wylfa Newydd:
 - *Rhaid mynd ati yn rhagweithiol i osgoi neu leihau effeithiau andwyol*
 - *Rhaid manteisio i'r eithaf ar fuddion o safbwynt economaidd a chymdeithasol*
 - *Rhaid diogelu nodweddion unigryw ac arbennig yr ynys ynghyd a'r ymdeimlad o le*
 - *Dylid arfer yr Egwyddor Agosrwydd*
 - *Rhaid creu etifeddiaeth gadarnhaol*
- Mae'r pandemig, brexit, diffyg cyfleoedd gwaith o safon a chynnydd mewn costau nwyddau ac ynni wedi arwain at newidiadau sylweddol ar yr Ynys ac yn arbennig yng Ngogledd yr Ynys dros y blynyddoedd diwethaf. Mae wedi arwain at economi gymharol fregus sy'n dibynnu ar gyflogaeth a chyflogau cymharol isel yn bennaf o fewn y sectorau amaeth, twristiaeth a manwerthu - sectorau sydd â gwerth isel, cyflog isel ac sy'n cynnig cyfleoedd tymhorol.
- Mae data'r cyfrifiad diweddaraf ar gyfer yr Ynys yn dangos poblogaeth sy'n heneiddio, lleihad yn y boblogaeth sydd mewn gwaith a lleihad yn nefnydd yr iaith Gymraeg.
- Mae'r dystiolaeth a gyflwynir gan y Cyngor wedi amlygu'r cyfle a gyflwynir gan ddatblygiad niwclear newydd posib yn Wylfa, boed hynny ar raddfa modwlar

bychan neu GW gan edrych yn ôl ar gais Horizon ar gyfer prosiect Wylfa Newydd o ran sicrhau bod yr Ynys yn cyfrannu tuag at y targed net sero tra'n sicrhau bod ein cymunedau yn gweld buddion a manteision gwirioneddol.

- Tra bod y Cyngor yn croesawu sefydlu'r corff 'Great British Nuclear (GBN) gan Lywodraeth y DU er mwyn canolbwyntio ar roi rhaglen datblygiadau niwclear mewn lle er mwyn sicrhau cynnydd mewn ynni niwclear ar raddfa a chyflymder digynsail, mae'r Cyngor yn parhau i chwilio am gadarnhad pendant y bydd y Rhaglen hon a Strategaethau Llywodraeth y DU a GBN yn adnabod safle Wylfa fel un o'r safleoedd sy'n cael ei ffafrio ar gyfer datblygu prosiect graddfa modwlar bychain neu GW.
- Nid yw'r Cyngor yn fodlon codi gobeithion preswylwyr, cymunedau, y gadwyn gyflenwi leol, y sector addysg a sgiliau a phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol tan bod cadarnhad pendant wedi ei roi. Mae'r Ynys a chymunedau'r Gogledd yn dal i deimlo'r siom o ddatblygiad Wylfa Newydd Horizon yn dirwyn i ben.
- Fodd bynnag, unwaith y bydd cadarnhad, mae'r Cyngor yn cadarnhau y byddai yn dymuno cyd-weithio gyda Llywodraeth y DU, GBN, Llywodraeth Cymru ar holl rhanddeiliaid a phartneriaid er mwyn sicrhau datblygiad cynaliadwy i'r Ynys lle y bydd buddion economaidd a cymdeithasol lleol gwirioneddol yn cael ei sicrhau ac felly'n ddatblygiad y gallwn ei gefnogi.